# Asesiad o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 bresennol yng Ngwynedd

Ebrill 2019

# Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Y dewis
3. Cefnogaeth a rhwydweithio
4. Teithio
5. Y Gymraeg
6. Effeithiolrwydd y ddarpariaeth bresennol
7. Ymateb rhieni dysgwyr mewn lleoliadau all-sirol
8. Atodiadau

# Acronymau

| | |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| AAA | Anghenion Addysg Arbennig |
| STEM | Science, Technology, Engineering, Mathematics |
| CMD | Coleg Meirion-Dwyfor |
| ABaCH | Addysg Bersonol a Chymdeithasol |
| CPA | Cynllunio Paratoi ac Asesu |
| AU | Addysg  Uwch |
| CBAC | Cydbwyllgor Addysg Cymru |
| IT | Information Technology |

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Nod

Bwriad yr ymchwil yr ydym yn ei chyflwyno yn yr adroddiad hwn yw casglu barn rhanddeiliaid allweddol ar y ddarpariaeth addysg ôl-16 yng Ngwynedd ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol. Comisiynwyd IAITH: y ganolfan cynllunio iaith gan Swyddfa Moderneiddio Addysg Cyngor Gwynedd i gasglu tystiolaeth trwy gynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda disgyblion a myfyrwyr, rhieni, ac arweinwyr ysgolion uwchradd a cholegau. Gosodwyd trywyddau'r ymchwil a phenderfynwyd ar y cwestiynau i'w gofyn yn y cyfweliadau ac yn yr holiaduron gan swyddogion Adran Addysg Cyngor Gwynedd. Cyflawnwyd y gwaith rhwng Rhagfyr 2018 ac Ebrill 2019.

## 1.2 Dull gwaith

### Cyfweliadau

Cynhaliwyd cyfanswm o 8 cyfweliad wyneb yn wyneb gyda phenaethiaid ysgolion uwchradd Arfon ac Ysgol y Berwyn. Cynhaliwyd un cyfweliad drwy gyfrwng y Saesneg a'r gweddill yn Gymraeg yn ôl dewis y penaethiaid. Cynhaliwyd hefyd gyfweliad gyda Phrif Weithredwr Grŵp Llandrillo Menai a Phennaeth Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynhaliwyd 7 cyfweliad dros y ffôn yn Gymraeg gyda phenaethiaid ysgolion uwchradd Dwyfor a Meirionnydd.

Ysgolion Dwyfor
Ysgol Botwnnog
Ysgol Eifionydd
Ysgol Glan y Môr

Ysgolion Meirionnydd
Ysgol Ardudwy
Ysgol Bro Idris
Ysgol y Moelwyn
Ysgol Uwchradd Tywyn

### Grwpiau ffocws

Yn ystod Ionawr a Chwefror 2019 cynhaliwyd cyfanswm o 11 grŵp ffocws gyda dysgwyr chweched dosbarth a dysgwyr ôl-16 Colegau Trydyddol ac Addysg Bellach mewn 7 ysgol uwchradd a 4 safle addysg drydyddol/bellach.

Arfon
Ysgol Brynrefail
Ysgol Dyffryn Nantlle
Ysgol Dyffryn Ogwen
Ysgol Friars
Ysgol Syr Hugh Owen
Ysgol Tryfan

Meirionnydd
Ysgol y Berwyn

Colegau Trydyddol /Addysg Bellach
Coleg Glynllifon
Coleg Meirion-Dwyfor Dolgellau
Coleg Meirion-Dwyfor Pwllheli
Coleg Menai

Gwnaed y trefniadau ar gyfer cynnal y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws gan swyddogion Cyngor Gwynedd. Gofynnwyd i bob arweinydd addysg a gyfwelwyd ai yn Gymraeg neu yn Saesneg y dymunent gael eu cyfweld. Anelwyd at gynnal grwpiau ffocws gyda 8 dysgwyr ym mhob lleoliad, ond nid oedd hyn yn bosibl bob tro oherwydd amgylchiadau lleol yn y canolfannau, a chafwyd dau grŵp ffocws o bum dysgwr ac un grŵp o 10 dysgwr. Er mai disgyblion Blwyddyn 13 oedd ffocws aelodaeth y grŵp, ymunodd disgyblion Blwyddyn 12 â'r grwpiau mewn rhai canolfannau. Arweiniwyd y grwpiau ffocws yn Saesneg mewn un canolfan oherwydd dewis y dysgwyr yn y lleoliad ac arweiniwyd y gweddill yn Gymraeg gyda chymorth i hwyluso cyfraniadau Saesneg pan oedd angen. Darparwyd cwestiynau yn ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg hefyd ac ymatebodd y dysgwyr i'r cwestiynau yn eu dewis iaith. Mae'r ymatebion Saesneg wedi eu casglu o nifer o sefydliadau.

Paratowyd cyfres o gwestiynau ar gyfer y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws i ganfod barn yr arweinwyr a'r dysgwyr am:

a) brofiadau dysgwyr yn cynnwys y dewis o bynciau, cyngor astudio a gwybodaeth am opsiynau gyrfaol
b) teithio yn cynnwys yr angen i deithio rhwng safleoedd yn ystod y dydd ac effaith teithio ar ddewis/profiad y dysgwyr
c) cyfrwng yn cynnwys y defnydd o dechnoleg a'r Gymraeg

(Gweler Atodiadau 1, 2 a 3 am fersiynau llawn o'r cwestiynau).

## Holiaduron ar-lein

Lluniwyd a gweinyddwyd yr holiaduron gan swyddogion Swyddfa Moderneiddio Addysg Cyngor Gwynedd. Er mwyn ceisio casglu barn rhan-ddeiliaid ar gyfer adolygiad o ddarpariaeth addysg ôl-16 Gwynedd, roedd yr holiadur i rieni yn cyffwrdd â phynciau megis; dewis lleoliad addysg, y nifer o bynciau sydd ar gael o fewn teithio rhesymol, y Gymraeg a sylwadau pellach am y ddarpariaeth addysg ôl-16 yng Ngwynedd.

Datblygwyd yr holiaduron gan ddefnyddio rhaglen QDP Services. Roedd hyn yn caniatáu creu holiadur ar-lein i'w ddosbarthu ar e-bost i bob ysgol neu goleg. Lluniwyd tri holiadur ar gyfer rhieni dysgwyr yng Ngwynedd. Er mwyn casglu barn rhieni oedd â phlant ar fin dilyn addysg ôl-16, anfonwyd un yn benodol i rieni dysgwyr Blwyddyn 11 ym mhob ysgol uwchradd yng Ngwynedd. Dosbarthwyd yr ail ar gyfer rhieni dysgwyr Blwyddyn 12 sydd â phlant yn derbyn addysg ôl-16 yn un o ysgolion Gwynedd neu un o golegau Grŵp Llandrillo-Menai. Roedd y trydydd holiadur ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 12 sydd wedi dewis astudio mewn ysgol tu hwnt i ffiniau'r sir.

Cysylltodd swyddogion yr Adran Addysg â'r ysgolion i nodi'r broses a'r amserlen ar gyfer cwblhau a dychwelyd yr holiaduron. Dosbarthwyd yr holiaduron trwy e-bost neu ar wefannau perthnasol y sefydliadau gyda'r cyfnod derbyn sylwadau rhwng Chwefror 14 i Ebrill 3. Mae casgliadau'r holiaduron wedi eu cynnwys yn yr adroddiad o dan yr adrannau perthnasol. (Gweler Atodiadau 4-9 am fersiynau llawn o'r cwestiynau). Derbyniwyd cyfanswm o 5 ymateb i'r holiaduron gan rieni Blwyddyn 11 ysgolion Dwyfor a Meirionnydd ac 8 gan rieni disgyblion Blwyddyn 11 ysgolion uwchradd Arfon. Derbyniwyd 15 ymateb i'r holiadur i rieni disgyblion Blwyddyn 12 gan rieni disgyblion Blwyddyn 12 ysgolion uwchradd Arfon, ond ni dderbyniwyd ymatebion gan rieni Blwyddyn 12 Grŵp Llandrillo-Menai nac Ysgol y Berwyn. Derbyniwyd 8 ymateb i'r holiadur i ddysgwyr Blwyddyn 12 sydd wedi dewis astudio mewn ysgol tu hwnt i ffiniau'r sir.

## Ansawdd y data

Tystiolaeth ansoddol a gasglwyd drwy'r cyfweliadau a'r grwpiau ffocws. Y bwriad yw bod y data ansoddol hwn i'w ystyried mewn perthynas â'r data o ffynonellau eraill am y ddarpariaeth ôl-16 sydd ym meddiant y cyngor. Dylid cofio bod y dystiolaeth a gasglwyd gan y dysgwyr yn dystiolaeth hunan-adroddedig. Nid yw safbwyntiau'r dysgwyr o reidrwydd yn gynrychioladol o boblogaeth dysgwyr ôl-16 yn y canolfannau. Yn ogystal, dylid ystyried nad yw'r disgyblion wedi rhoi darlun llawn a manwl o bob agwedd ar ddarpariaeth ôl-16 y canolfannau o fewn cyfyngderau trafodaeth grŵp ffocws.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r holiaduron yn gyfuniad o ddata meintiol ac ansoddol. Bwriad yr holiaduron oedd casglu barn rhieni oedd â phlant sydd ar fin dilyn addysg ôl-16 neu yn dilyn cyrsiau ôl-16 ar hyn o bryd. Nid yw safbwyntiau'r rhieni a ymatebodd o reidrwydd yn gynrychioladol o boblogaeth rhieni dysgwyr cyn ac ôl-16 yn y canolfannau. Dylid cadw mewn cof bod y niferoedd a gwblhaodd holiadur yn fach a dylid nodi yn ogystal nad oedd ymateb i'r holiadur gan rai grwpiau rhieni (rhieni Blwyddyn 12 Grŵp Llandrillo-Menai ac Ysgol y Berwyn).

# 2 Y dewis

Yn yr adran hon adroddir ar ansawdd y cynnig addysgol sydd ar gael i ddysgwyr ôl-16 yng Ngwynedd, ynghyd â'r defnydd o dechnoleg wrth ddarparu'r cyrsiau addysg. Trafodir safbwyntiau arweinwyr addysg, dysgwyr a rhieni ynghylch y dewis sydd ar gael.

## 2.1 Arfon

### 2.1.1 Barn arweinwyr

**Ansawdd y cynnig**

Darpariaeth academaidd a gynigir gan fwyaf i ddysgwyr ôl-16 gan ysgolion uwchradd Arfon. Dywedodd arweinydd un o'r ysgolion llai y ceir cyfyngiadau o ran niferoedd yn achlysurol, o ran bod meintiau grwpiau dysgu yn hyfyw. Mae mwyafrif yr ysgolion yn cynnig dau neu fwy o gyrsiau galwedigaethol, yn dibynnu ar y galw. Mae'r siawns o fethu gwneud cwrs dewisol yn yr ysgol yn eithaf isel.

Gwersi yn para dros gyfnod o awr neu 50 munud a gynigir yn ysgolion uwchradd Arfon. Mae dewisiadau cyrsiau wedi eu gosod allan fel "dewis rhydd" mewn ysgolion llai yn arbennig, er mwyn osgoi gwrthdaro a cheisio bod mor hyblyg â phosib. Dywedwyd yn yr ysgolion llai, yn arbennig, nad oes colofnau caeth ac y trefnir yr amserlen yn unol â dymuniadau dysgwyr. Mae'r staff yn eithaf hyblyg, meddai un arweinydd ac yn cynnig gwersi amser cinio weithiau neu'n newid amser CPA yn yr ysgolion llai. Dywedodd arweinydd un o'r ysgolion mwy mai bwydlen y consortiwm sy'n penderfynu pwy sy'n darparu ac ym marn arweinydd ysgol fawr arall "*the consortium timetable is a bit of a constraint.*" Nododd arweinydd ysgol fawr arall bod colofnau dewis wedi eu hamserlennu ar y cyd gydag ysgolion eraill. Ambell waith, mae dau bwnc dewisol disgybl yn yr un golofn ddewis. Oherwydd cydweithredu gydag ysgolion eraill, rhaid i rai pynciau fod mewn colofnau dewis penodol ac ar amseroedd penodol. Ychydig iawn o hyblygrwydd sy'n bosibl oherwydd gofynion arbenigedd athrawon ar gyfer TGAU a Safon Uwch. Mynegwyd y safbwyntiau canlynol pellach gan arweinwyr:

- *Blaenoriaeth yr ysgol yw ceisio sicrhau gofal a chefnogaeth briodol, darparu cyrsiau o ansawdd da a chyfleoedd digonol i ddisgyblion gyrraedd eu potensial. Amheuir a fyddai coleg addysg bellach yn medru cyflawni'r un amcanion i'r un graddau ag ysgol a chanddi chweched dosbarth*
- *Mae tensiwn anorfod rhwng y niferoedd mewn dosbarth dysgu ac ansawdd yr addysgu. Mae medru sicrhau cyllid digonol yn her wastadol hefyd*
- *Synhwyrir bod rhieni yn medru chwarae rhan allweddol wrth i ddisgyblion ddewis pynciau ond yn gyffredinol nid yw rhieni yn cyflwyno pryderon mawr i'r ysgol*
- *Yn dechnegol mae pob cyfuniad o ddewis pynciau i fod yn bosibl ond mae teithio wedi bod yn rhwystr i rai*
- *Os nad yw'r ysgol yn cynnig cwrs addas, chwilotir am ddarpariaeth mewn lleolid cyfagos sydd ar gael i'r dysgwr*

- *Oherwydd dewis rhydd ceisir rhagweld problemau ac anawsterau sy'n mynd i godi wrth amserlennu*
- *The vast majority of students get what they want*
- *As far as possible, the timetable is constructed around the wishes of the learners. However it's not always possible. The most viable subjects must be considered*
- *Mae rhai cyrsiau yn gorfod cyfyngu niferoedd oherwydd trefniadau consortiwm*
- *Nid oes neb wedi cael ei siomi o ran dewis pynciau yn yr ysgol eleni ond mae'n digwydd gyda nifer fechan o gyrsiau allgyrsiol*
- Ceir enghreifftiau o ddisgyblion yn newid ysgolion o bryd i'w gilydd er mwyn dilyn cyrsiau yn yr ysgol benodol honno a cheir cydweithio da rhwng ysgolion i hwyluso dewisiadau disgyblion

**Y defnydd o dechnoleg**

Mae pob ysgol yn Arfon yn defnyddio technoleg ar gyfer darpariaeth ôl-16 ond mae'r defnydd ohono a barn am ddefnyddioldeb rhai ffurfiau dechnoleg yn amrywiol. Datganodd un arweinydd ei bod "yn well gennym gysylltiad wyneb yn wyneb na dysgu drwy sgrin".

Cyfeiriwyd at y defnydd o offer fideo gynadledda ym mwyafrif yr ysgolion ond nid oes llawer o ddefnydd ohono. Mewn un ysgol rhoddwyd y gorau i'w ddefnyddio'n llwyr –"*The video conferencing facilities have been dismantled as students are not really keen on video conferencing - it's seen as a poor relation. Skype facilities are available if necessary*" ac ymhellach "*the preference is to send learners to another school for a particular subject provision rather than video conference provision.*"

Bu defnydd o fideo gynadleddau i ddarparu cyrsiau Cymdeithaseg a Seicoleg yn ysgolion Arfon ond mae'r ddarpariaeth bellach yn wyneb yn wyneb. Mewn ysgol arall mae cwrs Gwleidyddiaeth yn mynd i gael ei ddysgu yn y dyfodol drwy gyswllt electronig.

Cyfeiriwyd at adnoddau digidol CBAC, Hwb+ (Llywodraeth Cymru) Cwmni Cynnal, *Moodle* a *Schoology* a'r defnydd o fyrddau gwyn rhyngweithiol. Mynegwyd y farn bod athrawon yn bur amharod i arbrofi gyda thechnegau newydd gyda'r chweched dosbarth oherwydd pwysau i lwyddo yn enwedig mewn cyfnod o newid.

### 2.1.2 Casgliadau grwpiau ffocws

**Ansawdd y cynnig**

Dywedodd y dysgwyr bod digon o ddewis o gyrsiau iddynt gydag ambell eithriad, "*no state school in the area offered Economics*." Yn yr ysgolion mwy lle ceir colofnau dewis pynciau ar gyfer dewis cyrsiau Lefel A, sonia rhai disgyblion am wrthdaro gan fod eu pynciau dewisol yn yr un golofn. Roedd y mwyafrif llethol o ddysgwyr yn y grŵp ffocws wedi gallu dewis y pynciau yr oeddynt yn dymuno er bod rhai rhwystrau yn bennaf oherwydd yr angen i deithio i leoliad arall neu oherwydd y niferoedd a ddymunai ddilyn y cwrs. Serch hynny, roedd anawsterau i rai myfyrwyr a gwelir eu sylwadau a pheth barn isod.

- *Wedi peidio gwneud pwnc am nad oeddwn yn gallu ei wneud yn yr ysgol*
- *Byswn wedi dewis un pwnc mewn ysgol wahanol ond roedd mynd i ysgol wahanol yn ormod*
- *I wanted to study law but was told by school teacher that I wasn't allowed due to not enough room on the course*
- *Some people cannot go on to courses due to their CGSE results*
- Dewisiadau yn cael eu gwneud cyn gwybod am drefniadau teithio, felly mae disgyblion yn dilyn pwnc hen allu ffactora trefniad teithio i'r dewis

**Y defnydd o dechnoleg**

Cyfeiriodd y dysgwyr at adnoddau technoleg helaeth ac amrywiol a ddefnyddir yn ysgolion Arfon e.e. *Schoology*, *Moodle*, *Google Classrooms*, *Click View*, *Hwb* +, codau QR, *Office 365, Show my Homework,* gwefannau cyfrifiadurol, ipads a byrddau gwyn rhyngweithiol. Mae'r defnydd ohonynt yn amrywio o bwnc i bwnc. Mynegwyd barn groyw ar ddefnyddio technoleg mewn gwersi gan aelodau'r grwpiau ffocws.

- *I prefer paper resources, easier to use without internet access*
- *Adnoddau'r cwrs yn wych*
- *Bac yn defnyddio gormod o gyfrifiaduron*
- *Gor-ddefnyddio Schoology*
- *Weithiau yn gor-ddefnyddio adnoddau digidol*
- *Only sort of digital resources being used in class is a power point presentation by the teacher*
- *Not enough digital resources for some subjects*
- *Mewn un ysgol roedd yn well gan aelodau'r grŵp ffocws ddulliau dysgu wyneb yn wyneb yn hytrach na dysgu digidol ac e-ddysgu*
- *Nid oes mynediad llawn i adnoddau TGCh pan yn dilyn cwrs mewn ysgol arall*

### 2.1.3 Casgliadau holiaduron

**Ansawdd y cynnig**

Mynegwyd barn ar y dewis sydd ar gael i ddisgyblion yn holiadur a ddosbarthwyd i rieni dysgwyr Blwyddyn 12. Mae'r sylwadau yn ymwneud â chyrsiau a astudir yn yr ysgolion a thrwy drefniadau Rhwydwaith (dyfynnir y sylwadau'n uniongyrchol o ymatebion yr holiaduron).

- *Hapus iawn efo'r pynciau a ddarperir yn yr ysgol. Dim yn siŵr am y Pwnc a astudir yng Ngholeg Menai. Anhrefnus iawn ar ddechrau tymor yr Hydref pa unedau oeddent yn ei wneud a pa diwtor oedd yn eu cymryd*
- *My daughter attends different courses at different schools Tryfan, Brynrefail and Sir High giving her more scope of topics to choose from. Also an opportunity to expand her social network. This seems to be working well*
- *Cryfderau - ansawdd da o ddysgu yn ysgol Brynrefail gyda dosbarthiadau bach. Gwendid - dim digon o ddewis pynciau tu hwnt i'r pynciau crau, a theithio i safle arall i rai pynciau*
- *Dewis eang o bynciau gyda modd derbyn opsiynau mewn ysgolion eraill os dymunir. Gwendidau, efallai angen cynnig mwy o bynciau yn y flwyddyn gyntaf er mwyn annog astudiaeth o bynciau mwy eang*
- *Strength: Tries to cover all potential subjects Weakness: Overriding onus on the Welsh Baccalaureate instead of a subject of choice. Available at local high school. Good for the local community. Good for building confidence but can also be limiting - this depends on the personality of the child though. Choices limited but this requires travelling long distances in some cases. Needs to be more provision for experiences away from school environment to widen horizons*
- *Rydym wedi dewis gwneud cais i'n plentyn fynychu 6ed dosbarth yn hytrach na'r ddarpariaeth ôl-16 gynigwyd yn dalgylch Eifionydd. Hyn yn bennaf oherwydd dewisiadau pwnc a'r arbenigedd arbennig yn y meysydd gan yr ysgol uwchradd 6ed dosbarth Dan sylw mewn cymhariaeth a'r safle coleg. 6ed dosbarth yn cynnig cynhaliaeth unigryw a phrofiadau i ddisgyblion o fewn safle diogel*
- *Amrywiaeth o bynciau ar gael yn gryfder ac mae'r cydweithio rhwng ysgolion yn dda ond mae'r gwasanaeth teithio i wahanol ysgolion yn wael - tacsis yn aml yn hwyr.*

**Crynodeb barn arweinwyr, dysgwyr a rhieni Arfon**

- Darpariaeth academaidd Lefel A a geir gan fwyaf yn ysgolion Arfon gyda pheth darpariaeth alwedigaethol
- Yn yr ysgolion llai mae'r amserlen wedi ei threfnu yn ôl "dewis rhydd" ar gyfer cyrsiau ôl-16 ac mae cyrsiau wedi eu trefnu mewn colofnau dewis mewn ysgolion mwy
- Mae mwyafrif y dysgwyr yn medru dilyn y cyrsiau y maent yn eu dymuno ond ceir rhai rhwystrau
- Defnyddir gwahanol ffurfiau ar dechnoleg yn yr ysgolion i gyflwyno'r cwricwlwm ond mae rhai arweinwyr a dysgwyr yn dweud eu bod yn ffafrio dysgu wyneb yn wyneb
- Mae barn gymysg ymhlith dysgwyr am ddefnyddio technoleg, gyda rhai yn teimlo bod gor-ddefnydd ohono ac eraill yn dweud bod yr adnoddau'n wych
- Ar y cyfan, mae rheini yn fodlon gyda'r dewis o gyrsiau sydd ar gael yn yr ysgolion ond mae barn gymysg am yr angen i ddilyn cyrsiau mewn safleoedd eraill

## 2.2 Ysgol y Berwyn

### 2.2.1 Barn arweinwyr

**Ansawdd y cynnig**

Mae'r dewis o ddarpariaeth ôl-16 sydd ar gael yn yr ysgol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar y gofyn. Cyrsiau Lefel A yw'r brif ddarpariaeth, ynghyd â dau gwrs BTEC a chwrs Cam wrth Gam a gyflwynir mewn cydweithrediad â Mudiad Meithrin. Mae rhai pynciau cyswllt gyda Choleg Llysfasi, ond mae heriau amserlennu wrth gyflwyno'r ddarpariaeth. Mae'r ysgol yn cydweithio gyda Choleg Meirion-Dwyfor yn dibynnu ar y gofyn - ar hyn o bryd darperir Ffrangeg Lefel A drwy fideo gynadledda. Mae gan yr ysgol ddwy system fideo gynhadledd ond nid oes llawer o adnoddau arlein. Adnoddau mae athrawon yr ysgol wedi eu creu eu hunain yw llawer o'r adnoddau dysgu yn yr ysgol. Mae "*dewis rhydd*" ar gyfer yr amserlen, dyfeisiwyd matrics "*sydd yn gweithio'n eitha hwylus ac yn agor y ddarpariaeth i gyfuniad o bynciau.*"

### 2.2.2 Casgliadau grwpiau ffocws

Ac eithrio dysgwyr sy'n dilyn cwrs celf, ni wnaed dim defnydd o adnoddau digidol fel rhan o'u cyrsiau ôl-16 gan y dysgwyr yn y grŵp ffocws.

**Crynodeb barn arweinwyr a dysgwyr Ysgol y Berwyn**

- Cyrsiau Lefel A yw'r prif ddarpariaeth, ynghyd â thri chwrs galwedigaethol
- Mae'r ysgol yn cydweithio gyda cholegau a Mudiad Meithrin i fodloni dewisiadau dysgwyr
- Gweithredir yr amserlen ar sail "dewis rhydd" ar gyfer y pynciau
- Mae gan yr ysgol ddwy system fideo gynadledda ond prin yw'r ddefnydd o dechnoleg ar gyfer addysgu fel arall

## 2.3 Grŵp Llandrillo-Menai

### 2.3.1 Barn arweinwyr

**Ansawdd y cynnig**

Yng Ngholeg Meirion-Dwyfor cynigir 27 o gyrsiau Lefel A yn safleoedd Dolgellau a Phwllheli, ac ystod o gyrsiau galwedigaethol. Yn safle Glynllifon mae darpariaeth Diwydiannu'r Tir. Mae darpariaeth Sgiliau Byw'n Annibynnol yn Nolgellau a Glynllifon. Ceir darpariaeth fideo gynadledda rhwng campysau Pwllheli a Dolgellau. Mae'n her i gynllunio'n fwriadus, yn ôl yr arweinydd.

Yng Ngholeg Menai, ceir arlwy alwedigaethol a pheth darpariaeth Lefel A. Nid yw'r ddarpariaeth mor eang â CMD oherwydd darpariaeth ysgolion Arfon. Mae'r arlwy a gynigir yn ymateb i ragolygon Economi Gogledd Cymru, y "*Regional Skills Plan*" a phynciau sydd o ddiddordeb ar y pryd. Mantais Coleg Menai yw cyfoeth technolegol a'r rhwystrau yw methu cynnig pob pwnc Lefel A oherwydd niferoedd.

Mae dysgwyr lleoliadau CMD yn dilyn dewisiadau ac yn gallu cael y cyfuniad pynciol y maent yn ei ddymuno. Mae colofnau dewis pynciau Lefel A yn gallu cyfyngu dewis i rai myfyrwyr. Yng Ngholeg Menai mae myfyrwyr yn gallu cael eu dewis ar gyfer cyrsiau galwedigaethol, ond ar gyfer Lefel A mae'r ystod yn fwy cyfyng. Mae trefniadau Consortiwm yn gweithio os mai un pwnc mae dysgwyr yn ei ddilyn yn y Coleg.

**Y defnydd o dechnoleg**

Mae Grŵp Llandrillo-Menai wedi buddsoddi mewn dosbarth technoleg ddigidol a thechnoleg rhwng 2 gampws. Gwneir defnydd o fyrddau digidol a C*hrome Books*. Mae Sgiliaith yn darparu nifer o bynciau ar ffurf e-ddysgu i'r Consortiwm yn ogystal ag i farchnad ehangach y tu hwnt i Wynedd a Môn.

### 2.3.2 Casgliadau grwpiau ffocws

**Ansawdd y cynnig**

Roedd aelodau grwpiau ffocws CMD Dolgellau a Phwllheli yn ddigon hapus gyda'u dewisiadau, a phawb yn hapus gyda'r dewis yng Ngholeg Menai. Yn Nolgellau, roedd

pawb wedi llwyddo i gael eu derbyn ar y cyrsiau roeddynt yn eu dymuno. Nododd un myfyriwr ei fod wedi cael cyngor ac arweiniad da gan y Coleg ynglŷn â dewis pynciau galwedigaethol. Ym Mhwllheli, nodwyd bod anghenion teithio yn gallu bod yn rhwystr ac y gallai dysgwyr golli allan ar  rai pynciau os oes angen teithio'n bell ar gyfer y ddarpariaeth. Yng Nglynllifon, roedd aelodau'r grŵp i gyd yn dilyn y cyrsiau yr oeddynt eu hangen. Yng Ngholeg Menai soniodd dysgwr am wrthdaro ar yr amserlen  yn rhwystro eu dewis cyntaf o bynciau.

**Y defnydd o dechnoleg**

Yn Nolgellau, cyfeiriodd y dysgwyr at y defnydd cyffredinol o *Google Classrooms* fel llwyfan i dderbyn a chyflwyno aseiniadau. Nid oeddynt yn derbyn addysg drwy e-ddysgu, ac nid oedd awydd i ddatblygu hynny. Roedd aelodau'r grŵp yn ffafrio dysgu wyneb yn wyneb mewn dosbarth. Ym Mhwllheli, cyfeiriwyd at y defnydd a wneir o *Google Classrooms* a *Moodle* o fewn y Coleg. Mae'r defnydd ohonynt yn amrywio o bwnc i bwnc ac yn dibynnu ar bwy yw'r tiwtoriaid. Mae digon o adnoddau ar lein ar gael ar gyfer cyrsiau megis gofal plant. Mae'r myfyrwyr yn hoffi cydbwysedd rhwng dysgu wyneb yn wyneb a dysgu ar-lein. Yng ngrŵp ffocws Glynllifon, dywedwyd bod llawer o waith yn cael ei wneud ar gyfrifiaduron, C*hrome Books* ac y defnyddir *Google Classrooms* a *Google docs* yn helaeth

Ceir defnydd helaeth *o Google Classrooms* yng Ngholeg Menai hefyd ac mae deunydd adolygu i'w gael ar *Moodle*. Barn y dysgwyr oedd eu bod yn  ddulliau effeithiol iawn o ddal i fyny gyda gwaith. Roedd mwyafrif aelodau'r grŵp ffocws yn hoffi a gwerthfawrogi amrywiaeth yn y  dulliau dysgu ac yn gwerthfawrogi cydbwysedd rhwng  dysgu wyneb yn wyneb, dulliau digidol ac e-ddysgu.

### 2.3.3 Casgliadau holiaduron

Ni dderbyniwyd ymateb i 'r holiaduron gan rieni Blwyddyn 12 Grŵp Llandrillo-Menai.

**Crynodeb barn arweinwyr,  dysgwyr a rhieni Grŵp Llandrillo-Menai**

- Ceir ystod o gyrsiau Lefel A yn safleoedd Dolgellau a Pwllheli a dewis mwy cyfyngedig yng Ngholeg Menai. Mae darpariaeth alwedigaethol ar y safleoedd hyn ac yng Nglynllifon, sy'n darparu'n benodol ar gyfer Diwydiannau'r Tir
- Mae'r myfyrwyr yn y grwpiau ffocws  yn fodlon gyda'u dewisiadau  ond mae teithio a gwrthdaro amserlennu yn gallu cyfyngu ar ddewisiadau
- Mae'r dysgwyr yn ffafrio dysgu wyneb yn wyneb  wedi ei gydbwyso gyda defnydd o dechnoleg
- Mae'r Grŵp wedi buddsoddi'n helaeth mewn technoleg a gwneir defnydd helaeth o *Google Classrooms*, *Moodle*, a *Chrome Books*
- Mae gan y grŵp adnoddau galwedigaethol helaeth

## 2.4 Ysgolion Dwyfor / Meirionnydd

### 2.4.1 Barn arweinwyr

**Ansawdd y cynnig**

Ar y cyfan mae arweinwyr addysg o'r farn bod amrediad eithaf teg o gyrsiau ôl-16 yn cael eu cynnig, yn arbennig o ystyried y cyd-destun, ac mae awydd i weld yr amrediad o gyrsiau'n parhau i fod ar gael. Ceir barn am amryw o faterion y dymunir gweld eu datblygu hefyd:

- *Cynnig y cyrsiau mwy traddodiadol yn yr ysgolion a chydweithio gydag ysgolion eraill fel bod disgyblion yn cael profiadau cymdeithasol*
- *Mae angen mwy o gydweithio eto o ran materion teithio, rhannu cyrsiau, cynhyrchu adnoddau gwybodaeth a hyrwyddo*
- *Mae angen dwysau ymdrechion i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu ac addysgu yn y sector ôl-16. Byddai cael mwy o adnoddau i hyrwyddo ac annog dilyniant ieithyddol yn gaffaeliad*
- *Mae angen mwy o adnoddau i hyrwyddo beth sydd ar gael i ddysgwyr yn eu bröydd er mwyn annog mwy ohonynt i aros yn eu hardaloedd lleol*
- *Ystyried sut y gellir gweithio'n fwy strategol i rannu staff gydag ysgolion lleol yng nghyswllt cynllunio a darparu'r ddarpariaeth Lefel A*
- *Mwy o gyrsiau galwedigaethol perthnasol ar gael ym Mhwllheli, yn benodol Arlwyo, Adeiladwaith, Trin gwallt a harddwch*
- *Dymuniad i weld ffurfioli cyswllt rhwng y colegau a'r ysgolion a galluogi dysgwyr yn y Coleg i gynorthwyo gyda rhai pethau yn yr ysgolion, megis eisteddfod ysgol, gweithgareddau llythrennedd a chwaraeon. Byddai budd i fyfyrwyr ôl-16 o ran rôl a phrofiadau cymunedol*
- *Mae peidio cael darpariaeth ôl-16 yn effeithio ar recriwtio a phenodi staff, mae'n fwy heriol cadw athrawon sydd â'u bryd ar ddysgu Lefel A, ac yn anoddach denu athrawon i weithio i'r ysgol. Os yw ysgolion Arfon a'r Berwyn yn parhau gyda darpariaeth ôl-16, nid yw'n sefyllfa deg*

### 2.4.2 Casgliadau holiaduron

O'r pump ymateb a dderbyniwyd i'r holiadur wrth ymateb i'r cwestiwn Yn eich barn chi, a oes digon o ddewis o gyrsiau ôl-16 ar gael i'ch plentyn yn y lleoliad y mae'n ei ffafrio / yn ei ddymuno, ymatebodd 1 eu bod yn fodlon iawn a 4 eu bod yn fodlon gyda'r dewis.

**Crynodeb barn arweinwyr, dysgwyr a rhieni Dwyfor / Meirionnydd**

- Ar y cyfan, mae arweinwyr addysg o'r farn bod amrediad eithaf teg o gyrsiau ôl-16 yn cael ei gynnig yn arbennig o ystyried y cyd-destun gwledig
- Awgrymir bod angen mwy o gydweithio o ran rhannu adnoddau, hyrwyddo a staff
- Dymunir gweld cryfhau dilyniant ieithyddol yn y ddarpariaeth ôl-16
- Dymunir gweld ffurfioli cysylltiad rhwng y coleg a'r ysgolion fel bod mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ôl-16 gyfrannu at weithgareddau ysgol a datblygu profiadau cymunedol

# 3 Cefnogaeth a rhwydweithio

Yn yr adran hon trafodir safbwyntiau arweinwyr addysg, dysgwyr a rhieni am y gwahanol fathau o gefnogaeth sydd ar gael i ddysgwyr ôl-16 ynghyd â chyfleoedd rhwydweithio sydd ar gael iddynt. Y math cyntaf o rwydweithio yw'r ddarpariaeth sydd yn ymwneud â dysgwyr ac athrawon mewn lleoliadau gwahanol i'w prif safle addysg drwy drefniadau consortiwm ôl-16 Gwynedd a Môn. Nid yw'r trefniadau rhwydweithio hyn yn berthnasol i Ysgol y Berwyn na Choleg Meirion-Dwfyor, ond maent yn berthnasol i ysgolion uwchradd Arfon a Choleg Menai. Yn achos Ysgol y Berwyn ceir rhwydweithio gydag amryw o sefydliadau eraill er mwyn bodloni anghenion a dyheadau eu dysgwyr.

Mae cefnogaeth yn y cyd-destun hwn yn cynnwys trefniadau pontio rhwng darpariaeth cyn-16 ac ôl-16, cynghori ynglŷn â dewisiadau academaidd, cyngor gyrfaol a chefnogaeth lles, a thystiolaeth arweinwyr addysg ôl-16 am gyfleoedd allgyrsiol.

## 3.1 Ysgolion Arfon

### 3.1.1 Barn arweinwyr

**Cyngor am ddewis cyrsiau ôl-16**

Mae pob ysgol uwchradd yn Arfon yn darparu cyngor ynglŷn â dewis cyrsiau ôl-16 i ddisgyblion Blwyddyn 11. Cyfeiriodd arweinydd addysg o bob ysgol at gynnal prynhawn neu noson agored/dewisiadau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 cyn iddynt orffen eu cyrsiau TGAU. Darperir llawlyfr gwybodaeth ar bapur neu arlein yn rhoi manylion am gyrsiau ôl-16 a ddarperir yn y lleoliadau. Mewn dwy ysgol cyfeiriwyd at ddisgyblion Blwyddyn 13 cyfredol yn rhannu eu profiadau gyda disgyblion Blwyddyn 11 cyn iddynt wneud eu dewisiadau. Nododd rhai arweinwyr yn Arfon bod cynrychiolwyr y Rhwydwaith yn mynychu nosweithiau dewisiadau yn yr ysgolion hefyd.

Mae'r dull o roi gwybod am ddarpariaeth Coleg Menai yn amrywio rhwng ysgolion ac yn cynnwys rhoi gwybod am ddigwyddiadau drwy fwletinau neu yn ystod cyfnodau cofrestru, mynychu nosweithiau agored neu ffeiriau Coleg Menai. Nododd arweinwyr rhai ysgolion nad yw Coleg Menai yn cyfrannu at eu noson dewisiadau ond bod yr ysgol yn rhoi hysbysrwydd i noson dewisiadau'r coleg ei hun ac yn cefnogi ceisiadau disgyblion sy'n gwneud cais ar gyfer dilyn cwrs yn y coleg.

Cyfeiriodd holl arweinwyr addysg Arfon at wasanaeth Gyrfa Cymru fel ffynhonnell cyngor i garfanau o ddisgyblion. Mae llawer o wasanaeth Gyrfa Cymru wedi newid i fod yn wasanaethau arlein yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond maent yn parhau â chysylltiad gydag ysgolion drwy ddarparu cyngor grwpiau o ddisgyblion ar sail diddordeb penodol ac mae gwasanaeth 1:1 i ddisgyblon sydd angen cymorth penodol. Nododd yr holl ysgolion mai canran o ddisgyblion yn hytrach na phawb ym Mlwyddyn 11 sydd yn dod i gyswllt uniongyrchol gyda swyddogion Gyrfa Cymru a dywedwyd mai ariannu oedd yn gyfrifol am y lleihad mewn cyswllt. Soniodd arweinwyr rhai ysgolion bod aelod o staff yr ysgol yn gweithredu fel cyd-gysylltydd gyrfaoedd. Cyfeiriodd dwy ysgol bod cyfleoedd i ehangu gwybodaeth yrfaol o fewn y Bac, a bod cyfle i ymchwilio i ddewisiadau gyrfaol

o fewn y rhaglen honno gyda chefnogaeth athrawon. Mewn dwy ysgol arall, cyfeiriwyd at wahodd cyflogwyr i'r ysgol, un ai fel rhan o ddiwrnod sgiliau'r dystysgrif her, neu brynhawn agored sy'n cynnwys cyflwyniadau gan gyflogwyr a chyflwyniad i brentisiaethau. O ran paratoi disgyblion ar gyfer dewisiadau ôl-18, noddodd yr ysgolion bod disgyblion yn mynychu dyddiau agored prifysgolion neu ffeiriau addysg uwch, ac y darperir cymorth a chyngor i gwblhau ceisiadau UCAS.

Mae gan bob dysgwr sy'n parhau mewn addysg ôl-16 yn ysgolion Arfon diwtor dosbarth sydd yn gyfrifol am ofal bugeiliol, ynghyd â thracio cynnydd dysgwyr. Ceir pennaeth blwyddyn penodol ar gyfer disgyblion blynyddoedd 12 a 13, gan ddilyn yr un strwythur bugeiliol â blynyddoedd ysgol eraill. Mae pennaeth blwyddyn yn darparu cefnogaeth academaidd i ddysgwyr. Mewn rhai ysgolion uwchradd mae anogwr dysgu ar gael i ddisgyblon ôl-16. Mae gwasanaeth cwnselydd, nyrs ysgol a swyddog lles ar gael, ond dywedwyd gan rhai arweinwyr bod rhestr aros ar gyfer rhai o'r gwasanaethau hyn. Nododd arweinydd un ysgol bod swyddog cyswllt teuluoedd ar gael sy'n gweithio gyda theuluoedd lle mae llai o gefnogaeth. Nododd arweinydd un ysgol fawr yn Arfon byddai'r dysgwyr yn dymuno mwy o gefnogaeth ar gyfer materion iechyd meddwl.

**Rhwydweithio o ganlyniad i drefniadau Consortiwm**

Mae cyfleoedd a darpariaeth allgyrsiol yn amrywio o ysgol i ysgol. Dywedodd un ysgol nad oes llawer o ddarpariaeth ar wahân i'r ddarpariaeth ar gyfer y criw addysg gorfforol, tîm cwis pop, a'r Urdd. Ar y llaw arall, dywedodd arweinydd mewn ysgol arall bod "*disgyblion y 6ed yn rhan allweddol o fywyd allgyrsiol yr ysgol*" a phwysleisiodd arweinydd arall fod y disgyblion hŷn yn *"arweinwyr blaengar ysgolion,"* a'u bod *"yn meddu ar aeddfedrwydd a hyder ar ôl dwy flynedd yn y chweched*." Barn arweinydd arall oedd bod gan ddisgyblion "*rôl allweddol fel myfyrwyr hŷn i fod yn enghreifftio arferion da a chefnogi dysgwyr iau.*" Cyfeiriodd un ysgol at dderbyn canmoliaeth sylweddol gan Estyn am yr agweddau allgyrsiol sydd ar gael yn yr ysgol. Ym mwyafrif yr ysgolion cyfeiriwyd at weithgareddau megis:

- Eisteddfod Ysgol
- Teithiau theatr / hanes/ daearyddiaeth Yr Urdd/ Bac
- Trefnu adloniant/ digwyddiadau gwirfoddoli gyda grwpiau yn y gymuned e.e. Pendalar, pensiynwyr lleol
- Arwain clybiau ar gyfer disgyblion iau
- Darpariaeth chwaraeon 5x 60
- Ymgyrchoedd e.e. cerdyn coch i hiliaeth
- Cyfleoedd Heriau'r Dystysgrif Her
- Profiad gwaith
- Chwaraeon yn cynnwys gemau tom a gweithgareddau unigol megis dringo, hwylio a gweithgareddau gaeaf
- Gwobr Dug Caeredin
- Cystadleuaeth Peirianneg Prifysgol Bangor
- Cystadlaethau siarad cyhoeddus

- Cwrs Profi Prifysgol Bangor (ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn anelu'n ddigon uchel)
- Cyfleoedd i fod yn cyfrannu at arwain gweithgareddau gyda disgyblion iau e.e. clybiau sgiliau llythrennedd a rhifedd, hyfforddi sesiynau iechyd meddwl plant iau, rhedeg clybiau chwaraeon, newyddiaduraeth, hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae mwyafrif arweinwyr addysg Arfon yn ystyried rhwydweithio rhwng ysgolion a'r Coleg o ganlyniad i drefniadau Consortiwm y rhanbarth yn hanfodol, ac yn effeithiol ar hyn o bryd. Er hynny dywedodd un arweinydd nad yw'n effeithio'r mwyafrif llethol o ddysgwyr yn yr ysgol " *this does not impact them as most follow courses at school,*" a mynegodd arweinydd o ysgol lai safbwynt cyferbyniol, "*mae'n anorfod bod ysgolion Arfon yn rhwydweithio oherwydd y gofynion a'r ddaearyddiaeth - a hynny'n bennaf er mwyn cynnig dewis helaeth a sicrhau darpariaeth o ansawdd*." Cyfeiriodd arweinydd arall at anawsterau gydag ansawdd gan nodi ei bod yn anoddach gwarantu ansawdd lle nad oes cyfrifoldeb amdanynt e.e. "*gwersi yn cael eu canslo heb esboniad pam.*" Crynhoir isod y sylwadau a wnaed ynglŷn ag effaith rhwydweithio ar athrawon ac addysgu a disgyblion.

Athrawon ac addysgu

- *Below SMT level, not sure how much interaction there is between staff*
- *There is not much teacher networking. GWE attempt to facilitate but this tends to impact outside the post-16 provision. The difficulty is in organising.*
- *Ni fu rhwydweithio ffurfiol rhwng athrawon tan yn ddiweddar. Bellach mae GWE yn ceisio hwyluso - arweinwyr 6ed, pynciau craidd*
- *Bu cyfarfod athrawon hanes ôl-16 yn ddiweddar, a gobeithir datblygu hyn mewn pynciau eraill*
- *Gall derbyn disgyblion 'newydd fod yn her gadarnhaol i athrawon hefyd*

Effaith ar ddisgyblion

- Mae rhwydweithio'n cynnig amrywiaeth mwy ar gyfer y disgyblion
- Mae rhwydweithio'n rhoi cyfle i ddysgwyr fanteisio ar ehangu cylch ffrindiau a chymysgu gyda'i gilydd y tu allan i oriau ysgol
- Mae cydweithio gyda sefydliadau addysg eraill yn gallu rhoi mynediad at adnoddau gwell mewn rhai achosion
- Gall trefniadau nosweithiau rhieni greu heriau - mae nosweithiau rhieni yn y canolfannau cydweithredol yn anodd. Mae'n rhy bell i fynd i nosweithiau rhieni i rai - angen efallai bod yn fwy hyblyg e.e. galwad ffôn.
- Byddai mwy o gydweithio ar lefel ôl-16 yn ddymunol a gallu rhesymoli pethau megis sicrhau adroddiadau ar fformat cyffredin
- Mae amrywiaeth y lleoliadau yn fantais ac yn medru dod â phrofiadau cyfoethog i ddisgyblion, yn gymdeithasol yn ddeallusol ac o ran y grwpiau dysgu.
- Cyfeiriodd rhai arweinwyr at Raglen Seren a Rhaglen Profi fel cyfleodd rhwydweithio hefyd

### 3.1.2 Casgliadau grwpiau ffocws

**Cyngor am ddewis cyrsiau ôl-16**

Yng nghyd-destun pontio o addysg cyn-16 ac addysg ôl-16 roedd mwyafrif llethol aelodau'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd yn ysgolion Arfon wedi parhau â'u haddysg yn yr un lleoliad ar gyfer y ddau gyfnod addysg. Wrth drafod y trefniadau pontio o addysg cyn-16 i addysg ôl-16 a chyngor ynglŷn â dewis cyrsiau roedd profiadau'r dysgwyr yn debyg yn y mwyafrif o'r ysgolion. Crybwyllwyd y dulliau a'r gweithgareddau cynghori canlynol gan fwyafrif aelodau'r grwpiau ffocws:

- Gyrfa Cymru – gwefan Gyrfa Cymru yn dangos llawer o wybodaeth ynglŷn ag opsiynau
- Noson agored yn yr ysgol
- Athrawon, yn cynnwys athrawon pwnc, pennaeth y 6ed, dirprwy benaethiaid a phenaethiaid yn cynghori
- A careers day at school
- Pamffled/ llyfryn yn rhoi pynciau coleg /consortiwm gwybodaeth am y pynciau
- Ffair Gyrfa Cymru yn Llandudno
- Ffair Coleg Menai
- E-byst am gyfleodd ac opsiynau a thrafodaethau gyda'r chweched ar y pryd a'u barn hwy am bynciau
- Cyfweliad gyda Swyddog Gyrfa Cymru
- Llawer o ymchwil personol
- Access to online resources
- Ffair brentisiaeth mewn ysgol arall

Mae sylwadau aelodau'r grwpiau ffocws yn awgrymu y byddai dysgwyr yn dymuno cael mwy o arweiniad wrth wneud eu dewisiadau ôl-16.

- *Teachers told us about the subjects. Students told us their honest opinion on the subject, career staff talked over careers opportunities*
- *Some people would benefit from more guidance especially the people who are not sure what they want to do – some people go to college and the course isn't right for them. Some dropped out throughout the year in school because they did not feel the 6th form was right for them*
- *Yn y noson ddewisiadau efo athrawon, mae athrawon yn tueddu i annog ni i ddilyn eu cwrs nhw*
- *Cyngor cryf gan athrawon a theulu i ddewis pynciau roeddwn yn eu mwynhau yn ogystal â rhai roeddwn yn dda ynddynt*
- *Wedi cael rhywfaint o gyngor gan yr ysgol - athrawon ac ati, ond dim digon yn fy marn i. Roeddwn yn dibynnu lot ar brofiadau blaenorol pobol oedd wedi astudio pynciau yn y gorffennol, yn hytrach na ysgol*

**Cyngor Gyrfaol**

Y mathau o wybodaeth yrfaol a dderbyniodd dysgwyr ysgolion Arfon yn ystod eu cyrsiau ôl-16 yw:

- Gwybodaeth am brentisiaethau, colegau, prifysgolion a swyddi gan bennaeth blwyddyn a swyddog gyrfaoedd
- Siaradwyr gwadd o brifysgolion ac asiantaethau blwyddyn dramor
- Ffeiriau prifysgolion mewn lleoliadau amrywiol
- Diwrnodau agored prifysgolion
- Llawer o gymorth athrawon ynglŷn â cheisiadau UCAS
- Cyfweliadau personol gyda'r Pennaeth Blwyddyn
- Careers options from Careers Wales. *Some people don't get enough guidance, Careers Wales website is not really useful, hard to navigate and old-fashioned*
- Awydd ymysg dysgwyr un ysgol i glywed mwy am brofiadau 'go iawn' o Addysg Uwch a byd gwaith ynghyd â chlywed mwy am brifysgolion yn yr Alban, Iwerddon a Lloegr gan fod yr ysgol yn tueddu hyrwyddo prifysgolion Cymru

**Cymorth lles**

O ran cymorth pellach neu gymorth lles, cyfeiriodd nifer o ddysgwyr at gefnogaeth a gânt gan athrawon, er enghraifft bod "*cymorth ar gael gan yr athrawon perthnasol – hawdd iawn i fynd i ofyn am gymorth gan athrawon gen ein bod hi efo cysylltiad pwysig yma*" a bod "*drws pennaeth blwyddyn wastad ar agor*." Fodd bynnag dywedodd aelodau grŵp ffocws o fwy nag un ysgol bod peth anhawster gyda chael cefnogaeth ar gyfer pynciau a astudir mewn lleoliad arall, er enghraifft:

- *I don't get a lot of help with external subjects*
- *Anodd gyda pwnc allanol, dim yno i chi bob tro*
- *Ysgol yn well am ofyn os ydan ni'n iawn efo gwaith, coleg yn llai cefnogol*

Roedd aelodau'r grwpiau yn ymwybodol bod cefnogaeth lles nyrs a chwnselydd ar gael iddynt yn ysgolion, er nad oeddynt wedi defnyddio'r gwasanaeth eu hunain. Cyfeiriwyd at ymwybyddiaeth neu gefnogaeth iechyd meddwl gan aelodau grŵp ffocws mewn dwy ysgol.

**Rhwydweithio gyda lleoliadau eraill**

Ymateb cymysg sydd gan ddysgwyr i rwydweithio gyda dysgwyr ac athrawon mewn lleoliadau eraill. Gellir rhannu'r ymateb i rwydweithio yn faterion trefniadol, addysgol a chymdeithasol. Y sylwadau mwyaf cadarnhaol a wnaed yw:

- *Gwych – cyswllt anhygoel. Hunanhyder yn gwella llwyth.*
- *Hoffi cyfarfod disgyblion o ganolfannau eraill*
- *Cyfle i wneud ffrindiau newydd ... yr athro hefyd yn gwneud i bawb deimlo'n gyfforddus ond weithiau bu diffyg cyfathrebu pan fo gwersi wedi eu canslo*

- *There is a 'group chat' among the students*
- Disgybl wedi cael profiad wersi cyfrwng Saesneg Ysgol David Hughes ac yn teimlo bod hynny yn gaffaeliad i fireinio gallu yn Saesneg
- *Gallu e-bostio'r athrawes os oedd problem*

Mae'r sylwadau negyddol gan fwyaf yn deillio o drafferthion trefniadol:

- *Does dim llawer o gydberthynas rhwng ysgolion, dim nodyn i ddweud os yw gwers wedi ei chanslo*
- *Dim llawer o gysylltiad rhwng yr ysgol a'r coleg. Wedi troi fyny 3 gwaith ac roedd y coleg wedi cau, sŵn i'n gwybod be dw i'n wybod rŵan fyswn i ddim wedi gwneud cwrs yn Llangefni*
- *Not very effective – messages not passed on from school to school*
- *Personally I believe networking with the other schools and pupils doesn't really improve my education, I take psychology as an external course and don't speak to many in class, yet I'm still thriving education wise*

### 3.1.3 Casgliadau holiaduron

Derbyniwyd 8 ymateb gan rieni disgyblion Blwyddyn 11 yn ysgolion uwchradd Arfon. Mewn ymateb i'r cwestiwn *Pa fath o gyngor a gwybodaeth yr hoffech i'ch plentyn ei dderbyn cyn dewis cyrsiau ôl-16*? (Cewch ddewis mwy nag un), dewisodd 5 ymatebydd Llawlyfr neu brosbectws gan y darparwr, 5 noson agored yn yr ysgol /coleg 4 ymweliadau gyda safle coleg/ysgol yn ystod y dydd a 4 sgwrs neu gyfweliad gyda staff. Derbyniwyd 15 ymateb gan rieni disgyblion Blwyddyn 12 ysgolion uwchradd Arfon. Mewn ymateb i'r cwestiwn *Yn eich profiad chi, a dderbyniodd eich plentyn gyngor digonol gan ddarparwyr cyrsiau ôl-16 cyn dewis a chychwyn astudio*? atebodd 6 yn gadarnhaol, 4 yn negyddol, 2 ddim yn gwybod a 3 heb ateb. Mewn ymateb i'r cwestiwn *Pa fath o gyngor a gwybodaeth oedd ar gael i'ch plentyn i'w gynorthwyo i ddewis cyrsiau ôl-16*? *(Cewch ddewis mwy nag un ateb)* barn 8 ymatebydd oedd *Sgwrs neu gyfweliad gyda staff*, roedd 7 yn dewis *Llawlyfr neu brosbectws gan y darparwr*, 7 yn dewis *Noson agored yn yr ysgol/coleg*, 5 yn dewis *Ymweliadau â safle ysgol/coleg yn ystod y dydd*. Yn ychwanegol, nododd 1 ymatebydd "*Mi fysa cyfarfod a staff y pynciau allanol wedi bod yn fuddiol*." Nododd rhiant arall: *"I have a child currently choosing A level subjects for next year and do not feel he has had adequate advice help regarding choosing his subject next year. I am also not sure if my daughter was aware of what subjects / grades she needed at A level for doing midwifery and nursing but she may not have decided at that point what she wanted to do*."

**Crynodeb barn arweinwyr, dysgwyr a rhieni Arfon**

- Mae pob ysgol uwchradd yn Arfon yn darparu cyngor ynglŷn â dewis cyrsiau ôl-16 i ddisgyblion Blwyddyn 11 a chynhelir digwyddiadau cynghori penodol megis nosweithiau agored llawlyfrau a chyflwyniadau
- Cyfeiriodd holl arweinwyr addysg Arfon at wasanaeth Gyrfa Cymru fel ffynhonnell cyngor i garfanau o ddisgyblion
- Mae gan bob dysgwr sy'n parhau mewn addysg ôl-16 yn ysgolion Arfon diwtor dosbarth sydd yn gyfrifol am ofal bugeiliol ynghyd â thracio cynnydd dysgwyr. Mae cefnogaeth anogwyr dysgu, nyrs a chwnselydd ar gael hefyd
- Mae cyfleoedd a darpariaeth allgyrsiol yn amrywio o ysgol i ysgol
- Mae mwyafrif arweinwyr addysg Arfon yn ystyried rhwydweithio rhwng ysgolion a'r Coleg o ganlyniad i drefniadau Consortiwm y rhanbarth, yn hanfodol ac effeithiol ar hyn o bryd
- Mae sylwadau aelodau'r grwpiau ffocws yn awgrymu y byddai dysgwyr yn dymuno cael mwy o arweiniad wrth wneud eu dewisiadau ôl-16
- Mae ymateb dysgwyr i rwydweithio gydag athrawon a disgyblion mewn lleoliadau eraill yn gymysg
- Mae dysgwyr wedi derbyn gwybodaeth yrfaol yn ystod eu cwrs ôl-16
- Mae rhiant wedi gwneud sylw y byddai'n ddymunol gallu cyfarfod staff y pynciau a addysgir yn allanol

## 3.2 Ysgol y Berwyn

### 3.2.1 Barn arweinwyr

Yn Ysgol y Berwyn, rhoddir gwybodaeth am gyrsiau ôl-16 a gynigir yn yr ysgol drwy'r pynciau a chynhelir Noson Agored 6ed Dosbarth gan staff yr ysgol. Ceir nosweithiau rhieni ym mlwyddyn 11 sydd yn darparu cyngor ac arweiniad i ddysgwyr am addasrwydd ar gyfer astudio cyrsiau ôl-16. Mae mynediad i ddysgwyr yr ysgol i gyrsiau blasu Coleg Meirion-Dwyfor a Glynllifon a dyddiau agored Coleg Cambria. Mae Pennaeth Blwyddyn 12 a 13 yn tracio cynnydd ac yn "*tynnu rhieni i mewn os oes angen*." Dywedwyd bod swyddogion Gyrfa Cymru yn gweld canran o ddisgyblion Blwyddyn 11.

Daw'r disgyblion mwyaf anghenus o dan gynllun TRAC ac mae Anogwyr Dysgu'r ysgol yn gweithio gyda dysgwyr pob oedran yn yr ysgol. Darperir cefnogaeth i ddysgwyr sydd â phroblemau lles emosiynol gan y Cydlynydd ADY. Ar gyfer y disgyblion sy'n derbyn cyfran o'u darpariaeth mewn lleoliad arall, dywedwyd bod rhwydweithio'n werthfawr iawn i unigolion.

O ran cyfleoedd allgyrsiol, dywedwyd y ceir cyfleodd niferus ar gyfer disgyblion ôl-16, yn cynnwys:

- Cwrs anwytho – penwythnos mewn canolfan awyr agored
- Teithiau BAC
- Sioe ysgol (*Pum Diwrnod o Ryddid* ar hyn o bryd)
- Ymryson y beirdd
- Côr yr ysgol yn ymweld â chartrefi henoed

- Teithiau cymdeithasol

### 3.2.2 Casgliadau grwpiau ffocws

Cyfeiriodd aelodau'r grŵp ffocws at yr agweddau canlynol a ddarparwyd ar eu cyfer wrth wneud dewisiadau ôl-16:

- Noson agored ysgol
- Trafod pynciau gydag athrawon
- Diwrnod yng Ngholeg Meirion-Dwyfor
- Llawlyfr Chweched

Cyfeiriwyd at fynychu ffair prifysgolion yn Lerpwl fel paratoad ar gyfer dewisiadau ôl-18 Ymateb cyffredinol y grŵp ffocws wrth holi am gefnogaeth bellach sydd ar gael iddynt yw y gallant gael cymorth gan eu tiwtor dosbarth. Nid oedd disgyblion y grŵp ffocws yn dilyn cyrsiau mewn lleoliad arall, felly nid oeddynt yn teimlo bod rhwydweithio'n berthnasol iddynt hwy.

**Crynodeb barn arweinwyr a dysgwyr Ysgol y Berwyn**

- Y prif ddulliau o roi gwybod am ddarpariaeth ôl-16 yw drwy noson agored yn yr ysgol, Llawlyfr, dyddiau agored a chyrsiau blasu mewn lleoliadau eraill
- Mae swyddogion Gyrfa Cymru yn darparu arweiniad i ganran o ddisgyblion yr ysgol
- Mae swyddogion Trac ac Anogwyr Dysgu yn cefnogi rhai dysgwyr ac mae tiwtoriaid dosbarth ar gael i roi cymorth i ddysgwyr
- Ceir cyfleoedd allgyrsiol amrywiol a niferus yn yr ysgol

## 3.3 Grŵp Llandrillo-Menai

### 3.3 1. Barn arweinwyr

Dywedwyd bod perthynas dda rhwng Coleg Merion-Dwyfor a'r ysgolion lleol. Nid oes cystadleuaeth gyda'r ysgolion gyda darpariaeth ôl-16 ac mae dysgwyr yn derbyn cyngor gan staff yr ysgolion a'r coleg. Cyflogir Swyddog Cyswllt Ysgolion gan y Coleg sydyn ymweld ag ysgolion y dalgylch yn rheolaidd. Cynhelir Nosweithiau Agored ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 y dalgylch a chynhelir noson agored benodol ar gyfer pynciau Lefel A. Yng Ngholeg Menai darperir y cyngor gan yr ysgolion yn bennaf. Dywedwyd bod y nifer o swyddogion Gyrfa Cymru sydd ar gael i gefnogi wedi eu cwtogi sydd "*ddim yn help.*" Mae Estyn wedi dyfarnu bod ansawdd cefnogaeth myfyrwyr y Grŵp yn "rhagorol." Cyfeiriwyd at ganfyddiad nad yw gofal bugeiliol gystal â'r ysgol ond *"dyw hynny ddim yn wir."*

Nodwyd bod y cyfleoedd allgyrsiol canlynol ar gael yng Ngholeg Meirion-Dwyfor:

- Gwasanaeth Swyddog Undeb Rygbi Gogledd Cymru ar gael ar gyfer darpariaeth rygbi (mae'r swydd wedi ei chyllido ar gyfer darpariaeth yn Ysgol Bro Idris a Chlwb Rygbi Dolgellau yn ogystal)
- Gweithgareddau ffitrwydd
- Gweithgareddau Sioe Gerdd flynyddol ym Mhwllheli
- Tripiau ac ymweliadau mewn nifer o bynciau
- Cyfrannu i weithgareddau Colegau Cymru

Yng Ngholeg Menai mae'r gweithgareddau allgyrsiol canlynol ar gael i fyfyrwyr:

- Academi Menai– yn hyrwyddo ffitrwydd a lles
- Gwaith elusennol
- Cynhadledd y dysgwyr - ymwybyddiaeth o gyfleoedd Iechyd Meddwl
- Nifer o ddigwyddiadau Sgiliau Cymru – UK Skills, World Skills ac mae degau o fyfyrwyr wedi cynrychioli'r coleg yn y cystadlaethau hyn
- Cystadlaethau o bob math ee ffotograffiaeth, ffilm ddigidol
- Profiad gwaith
- Erasmus – cyfle i fynd dramor

Wrth drafod rhwydweithio, dywedodd arweinwyr addysg Grŵp Llandrillo Menai mai bychan ydy'r rhyngweithio yng Ngholeg Menai oherwydd nad oes "*fforwm ar gyfer hynny*". Yng nghyswllt Coleg Meirion-Dwyfor, barnwyd bod rhwydweithio'n "*gweithio'n dda.*" Cyfeiriwyd at gyllid a dderbyniwyd i godi ymwybyddiaeth STEM a bod nifer fawr o ddysgwyr wedi dod i'r coleg ar ddiwrnod agored i hyrwyddo cyrsiau STEM.

### 3.3.2 Casgliadau grwpiau ffocws

**Cyngor am ddewis cyrsiau ôl-16**

Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda myfyrwyr yn safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor yn Nolgellau, Pwllheli a Glynllifon, ac yng Ngholeg Menai Bangor. Myfyrwyr yn dilyn cyrsiau galwedigaethol oedd aelodau grŵp ffocws Glynllifon ac roedd aelodau grwpiau ffocws y pedwar safle arall yn dilyn traws-doriad o gyrsiau galwedigaethol a Lefel A. Yng nghyd-destun pontio o addysg cyn-16 ac addysg ôl-16, roedd holl aelodau'r grwpiau ffocws yn parhau a'u haddysg ôl-16 mewn lleoliad gwahanol i'w cyfnod addysg blaenorol. Er bod elfennau tebyg yn y dulliau cynghori, roedd rhai gwahaniaethau yng nghanfyddiad dysgwyr ar safleoedd gwahanol sydd yn adlewyrchu darpariaeth o wahanol natur rhwng y safleoedd.

Safle Pwllheli

- Cyflwyniadau gan Gyrfa Cymru, ynghyd â chyfweliadau 1:1 mewn rhai achosion

- Yn ôl rhai dysgwyr, mewn rhai ysgolion athrawon oedd y ffynhonnell gwybodaeth yrfaol yn yr ysgol yn bennaf ond nid ydynt yn teimlo iddynt gael llawer o arweiniad ar yrfaoedd
- Mynychu diwrnodau agored a digwyddiadau blasu yn CMD
- Roedd yn "*llawer gwell*" gan y myfyrwyr dderbyn gwybodaeth gan bobl yn hytrach nag yn ddigidol neu ar-lein

Safle Dolgellau

- Diwrnod agored y Coleg
- Ymweliadau gan staff y Coleg a'r ysgolion cyn i ddysgwyr drosglwyddo i'r coleg
- Swyddogion Gyrfa Cymru wedi hwyluso mynediad at wefan y Coleg.
- Rhannwyd prosbectws y coleg gan staff y coleg yn y noson rieni ym Mlwyddyn 11

Safle Glynllifon

- Wedi ymweld â fferm Glynllifon
- Gwybodaeth drwy'r post gan y coleg
- Ffair dewisiadau 6ed yn yr ysgol
- Trafod gyda chyn fyfyrwyr
- Trafod gyda athrawes amaeth
- Trafod gyda'r swyddog gyrfaoedd
- Cyngor gan deulu

Coleg Menai

- Cyngor gan athrawon unigol
- Ffair yrfaoedd yn yr ysgol
- Diwrnod/noson agored yng Ngholeg Menai
- Cyflwyniad gan Coleg Menai yn yr ysgol
- Gwefannau
- Profiadau perthnasau, e.e. cyfnither
- Nodwyd bod tuedd gan rai ysgolion i bwyso ar ddisgyblion i aros yn yr ysgol yn hytrach na dewis coleg addysg bellach

**Cyngor gyrfaol**

Roedd canfyddiad dysgwyr o ddarpariaeth cyngor gyrfaol yn amrywio hefyd er bod mwy o unffurfiaeth yn y sylwadau. Cyfeiriodd y dysgwyr at athrawon a staff Gyrfa Cymru yn darparu cyngor yn y cyfnod cyn-16 er i rai disgyblion yn Nwyfor honni mai ychydig iawn o fewnbwn gyrfaol a gawsant yn yr ysgol. Roedd profiad gwaith o gyfnod yr ysgol wedi bod yn gymorth i rai penderfynu ar lwybr gyrfa. Dywedwyd bod tiwtoriaid personol a thiwtoriaid dosbarth yn y colegau ar gael i ddarparu gwybodaeth, ac y ceir ymweliadau gan weithwyr proffesiynol e.e. Meddygon a nyrsys. Ceir anogaeth i fynychu diwrnodau agored prifysgolion. Serch hynny, nodwyd nad oedd llawer o arweiniad ynghylch dewis prifysgolion ar gael yn y coleg. Roedd eraill yn teimlo bod mwy o arweiniad i'w gael ynghylch addysg uwch nag ar yrfaoedd ac y byddai'n ddymunol cael mwy o wybodaeth

ar sut fyddai cyrsiau addysg uwch yn arwain at yrfa. Byddai'n dda hefyd cael mwy o wybodaeth am gyrsiau amgen, e.e. cyrsiau mynediad a chyrsiau sylfaen fel llwybr at AU; prentisiaethau a chyfleoedd i ddilyn hyfforddiant mewn swydd.

**Cymorth a chefnogaeth**

O ran cymorth a chefnogaeth cyfeiriodd dysgwyr y pedwar safle bod tiwtoriaid personol yn ffynhonnell cymorth a chyngor pwysig iddynt. Nodwyd bod cwnselydd, nyrs a chyngor ariannol ar gael i fyfyrwyr o fewn y Coleg drwy Wasanaethau'r Dysgwyr a bod pawb yn ymwybodol ble i droi am gyngor. Cyfeiriwyd hefyd at gefnogaeth sydd ar gael drwy lyfrgelloedd y coleg.

**Crynodeb barn arweinwyr a dysgwyr Grŵp Llandrillo-Menai**

- Mae perthynas dda rhwng Coleg Merion-Dwyfor a'r ysgolion lleol a threfnir nosweithiau agored a dyddiau blasu ar gyfer dysgwyr cyn-16. Darperir Llawlyfr a cheir gwybodaeth am y ddarpariaeth ar wefan y Grŵp
- Yng Ngholeg Menai darperir y cyngor gan yr ysgolion yn bennaf
- Ceir ystod o weithgareddau allgyrsiol ar gyfer dysgwyr yng Ngholeg Meirion-Dwyfor a Choleg Menai
- Dywedodd dysgwyr Coleg Meirion-Dwyfor a Choleg Menai bod tiwtoriaid personol yn ffynhonnell cymorth a chyngor pwysig iddynt
- Mae cefnogaeth adran Gwasanaethau Dysgwyr ar gael i fyfyrwyr ynghyd â gwasanaeth nyrs, cwnselydd a chyngor ariannol
- Ceir anogaeth i fynychu diwrnodau agored prifysgolion; serch hynny nodwyd nad oedd llawer o arweiniad ynghylch dewis prifysgolion ar gael yn y coleg

## 3.3 Ysgolion Dwyfor / Meirionnydd

### 3.3.1 Barn arweinwyr

**Cyngor am ddewis cyrsiau ôl-16**

Nododd mwyafrif yr arweinwyr bod cyswllt agos rhwng yr ysgolion a safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor wrth ymwneud â throsglwyddo o ddarpariaeth cyn-16 yn yr ysgolion i ddarpariaeth ôl-16.

Dywed un arweinydd addysg ym Meirionnydd y gwneir y rhan fwyaf o'r trefniadau pontio drwy Grŵp Partneriaeth Meirionnydd sy'n cyfarfod dwywaith y flwyddyn. Mae swyddog cyswllt ysgolion y coleg yn ymweld â'r ysgolion yn y dalgylch yn rheolaidd ac yn darparu cyflwyniadau ar ddarpariaeth y coleg. Mae dysgwyr hefyd yn ymweld â nosweithiau agored CMD ac mae'r dysgwyr yn ymweld â safleoedd CMD ar ddiwrnodau agored. Yn

ystod y flwyddyn gyfredol, bu rhai o staff addysgu'r coleg yn cynnig sesiynau sbarduno i ddisgyblion blwyddyn 11 (sesiynau herio ac ymestyn).

Tra bo mwyafrif y dysgwyr yn derbyn cyflwyniadau ynglŷn â dewisiadau ôl-16 yn dorfol, fesul dosbarth neu mewn grwpiau llai yn yr ysgolion, mae rhai unigolion (disgyblion bregus a disgyblion ADY yn bennaf) yn derbyn cyngor unigol. Mae rhai dysgwyr 14-16 oed yn dilyn cyrsiau TGAU galwedigaethol yn safleoedd CMD.

Mae rhai ysgolion yn gwahodd cynrychiolwyr gan ddarparwyr ôl-16 heblaw CMD i ddisgyblion Blwyddyn 11 – enwyd dwy ysgol yn benodol sy'n gwneud hyn.

- Ym marn un arweinydd ym Meirionnydd mae'r trefniadau cyfredol "*yn weddol effeithiol gyda'r coleg yn estyn allan yn dda at yr ysgol*".
- Nododd arweinydd arall bod yr ysgol "*yn fodlon iawn gyda'r berthynas ac mae cynlluniau ar y gweill i ddwysau'r bartneriaeth ymhellach i'r dyfodol*."
- Barn arweinydd arall yw y ceir "*adnabyddiaeth dda ar lefel staff ac awydd cadarn i sicrhau bod y cydweithio'n llwyddo"* ac mae *"cyswllt da o ran rhannu gwybodaeth*."

Tebyg yw'r trefniadau trosglwyddo a chynghori yn Nwyfor. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ôl-16 y rhanbarth un ai yn dilyn cyrsiau Lefel A ym Mhwllheli, neu'n dilyn cyrsiau galwedigaethol yn safleoedd CMD a Choleg Menai yn Nolgellau, Glynllifon, Bangor neu Langefni ac yn mynychu'r Nosweithiau Agored a'r dyddiau blasu. Mae Swyddog Cyswllt Ysgolion y Coleg yn cydweithio'n agos gyda'r ysgolion. Cyfeiriwyd hefyd at ddigwyddiadau prentisiaeth ym Mangor, ac at gyflogwyr yn ymweld mewn ffeiriau cyflogwyr a gynhelir mewn rhai ysgolion. Cyfeiriwyd at y cyfnodau profiad gwaith ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10, sydd yn rhoi cymhwyster ar ei ddiwedd.

- Ym marn yn un o arweinyddion addysg Dwyfor, mae'n anodd gwybod sut y gallai'r trefniadau trosglwyddo fod yn well "*heb dreulio mwy o amser a defnyddio mwy o arian*"
- Dywedodd arweinydd arall yn Nwyfor fod yr ysgol "*wedi hen golli'r 6ed – piti bod rhai myfyrwyr gorau yn cael eu colli o'r ysgol o'r herwydd*"

**Cyngor gyrfaol**

Nododd arweinwyr addysg Dwyfor a Meirionnydd mai cyfuniad o ddarpariaeth gwersi ABaCH yr ysgol Gyfra Cymru a Choleg Meirion Dwyfor sy'n darparu cyngor gyrfaol i ddysgwyr cyn iddynt ddewis cyrsiau ôl-16. Darpara Gyfra Cymru gyflwyniadau torfol fesul dosbarth ac i grwpiau llai. Nid ydynt yn darparu cyfweliadau unigol erbyn hyn.

Disgrifiwyd y cyswllt gan arweinydd addysg yn Nwyfor fel hyn: "*Mae swyddog gyrfa Cymru yn dal cyswllt gyda'r ysgol rhyw ddeuddydd yr wythnos, er bod amledd y cyswllt hwnnw a'r adnoddau sydd ar gael ganddyn nhw wedi dioddef yn ystod y blynyddoedd diweddar o ganlyniad i'r toriadau a fu ar gyllideb Gyrfa Cymru*." Mae ysgolion yn darparu gwersi gyrfaoedd fel rhan o ddarpariaeth ABaCH ac mewn rhai achosion cyfeiriwyd at gynghori ar agweddau megis datblygu CV ac yn cynnal ffug-gyfweliadau. Caiff gwybodaeth am brentisiaethau ei rannu drwy swyddogion gyrfa. Mewn un ysgol ym

Meirionnydd cyfeiriwyd at lywodraethwr ysgol sydd â chyfrifoldeb penodol dros yrfaoedd ac anogwyr dysgu yn gysylltiedig â marc ansawdd Gyrfa Cymru. Materion eraill yng nghyswllt cefnogaeth a rhwydweithio y mynegwyd barn arnynt oedd:

- Ar y cyfan credir bod y trefniadau cyfredol yn ddigon effeithiol. "*Mae yna sgwrs gyfredol... ar lefel arweinyddol ynghylch sut orau i gryfhau'r gweithio partneriaethol, ac yn enwedig yn y sir, i adfer y drefn a fu o gyd-gynllunio anghenion disgyblion unigol ar lefel pwnc /adran*"
- *Er bod yna wastad le i ddatblygu, cryfderau'r sefyllfa gyfredol yw: yr un pwynt cyswllt gyda'r Coleg, y cyfleoedd a ddarperir i flwyddyn 10 i flasu safleoedd a chyrsiau, y nosweithiau agored a'r modd yr hwylusir cyfleoedd i ddysgwyr*
- *I'r dyfodol, dylid ystyried datblygu adnoddau i gynorthwyo'r prosesau pontio a throsglwyddo ar draws y sir*
- *Agwedd bwysicaf yr arweiniad yw ceisio llywio disgyblion p'un ai sefyll arholiadau Lefel A neu ddilyn trywydd galwedigaethol sydd fwyaf addas i'r dysgwyr.*

### 3.3.2 Casgliadau holiaduron

Pump ymateb a dderbyniwyd i'r holiadur. Mewn ymateb i'r cwestiwn *Pa fath o gyngor a gwybodaeth yr hoffech i'ch plentyn ei dderbyn cyn dewis cyrsiau ôl-16? (Cewch ddewis mwy nag un)* barn 5 ymatebydd oedd *Ymweliadau â safle ysgol/coleg yn ystod y dydd*; *5 yn dewis Llawlyfr neu brosbectws gan y darparwr*, *5 yn dewis Noson agored yn yr ysgol/coleg; 4 Sgwrs neu gyfweliad gyda staff*. Mewn ymateb i'r cwestiwn *O'r rhestr isod, nodwch pa ddwy nodwedd sydd bwysicaf wrth ystyried darpariaeth ôl-16 i'ch plentyn*, barn 3 ymatebydd *yw ansawdd a dewis pynciau*, barn 2 ymatebydd yw *cymorth i astudio* a barn 1 yw *ethos ac iaith* a *maint dosbarthiadau*.

**Crynodeb barn arweinwyr dysgwyr a rhieni Dwyfor / Meirionnydd**

- Nododd mwyafrif yr arweinwyr bod cyswllt agos rhwng yr ysgolion a safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor wrth ymwneud â throsglwyddo
- Mae swyddog cyswllt ysgolion y coleg yn ymweld â'r ysgolion yn y dalgylch yn rheolaidd ac yn darparu cyflwyniadau ar ddarpariaeth y coleg
- Dywedwyd bod y trefniadau cyfredol yn weddol effeithiol gyda'r coleg yn estyn allan yn dda at yr ysgol ac y ceir adnabyddiaeth dda ar lefel staff ac awydd gadarn i sicrhau bod y cydweithio'n llwyddo, a bod cyswllt da o ran rhannu gwybodaeth
- Cyfuniad o ddarpariaeth gwersi ABaCh yr ysgol, Gyfra Cymru a Choleg Meirion-Dwyfor sy'n darparu cyngor gyrfaol i ddysgwyr cyn iddynt ddewis cyrsiau ôl-16
- Caiff gwybodaeth am brentisiaethau ei rannu drwy swyddogion gyrfa

# 4 Teithio

Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn mae teithio yn cyfeirio'n bennaf at deithio i leoliadau eraill ac eithrio'r prif safle addysg yn ystod y diwrnod ysgol er mwyn dilyn cwrs drwy drefniadau'r Rhwydwaith yn Arfon a threfniadau partneriaethol ym Meirionnydd. Yn ogystal, ceir barn y rhan-ddeiliaid a holwyd am ddarpariaeth cyrsiau ôl-16 sydd o fewn pellter teithio rhesymol i'r dysgwyr.

## 4.1 Ysgolion Arfon

### 4.1.1 Barn arweinwyr

Mae teithio yn ffactor sydd yn dylanwadu ar drefniadau ysgolion a dewisiadau dysgwyr. Nodwyd y safbwyntiau canlynol gan arweinwyr wrth drafod a oes nifer digonol o gyrsiau ôl-16 o fewn pellter teithio rhesymol i ddysgwyr Arfon.

- *Mae digon o fwydlen o ran dewis cyrsiau*
- *Mae teithio yn bell i ambell un*
- *Mae'n dibynnu ar y diffiniad o "rhesymol." Pan fo angen teithio o ysgol i ysgol i godi dysgwyr eraill ar y ffordd mae'n gwneud y diwrnod yn hir iawn ac mae problem os nad oes cludiant ar gael ar ôl oriau ysgol – nid yw dysgwyr yn cyrraedd adre tan 6 yr hwyr mewn rhai achosion*
- *Time spent out of the classroom is time out of learning*
- *There are taxi sharing arrangement in place for learners*
- *Oes – nifer o fewn cyrraedd rhesymol*

Nodwyd nifer o farnau gwahanol gan yr arweinwyr ynglŷn ag agweddau ymarferol teithio a'i effaith ar ddysgwyr.

**Amser**

- *Uchafswm o awr a hanner – mae Llangefni ar y limit yma*
- *Teithio ddwywaith/dwy sesiwn ydy'r angen ar gyfer cwrs consortiwm ar y mwyaf*
- *Mae awr bob ffordd yn hen ddigon*
- *Travel is managed to avoid missing lessons*
- *Consortium courses tend to go on till 5.15 – this can be a disincentive to go on partnership courses.*
- *Teithio ddywaith yr wythnos yn gyfanswm o awr a hanner (dwy ffordd)*

**Costau**

- *Mae'r gost yn ffactor eithriadol o uchel. Mae teithio'n llyncu cyllid. Mae costau cludiant yn bryder oherwydd darpariaeth tacsi*
- *Yr anfanteision pennaf yw bod llawer o amser 'marw' di-addysg yn cael ei wario mewn tacsis, ynghyd â'r gost sydd ynghlwm wrth y teithio hynny*

**Lleoliad**

- *Os yn teithio i leoliad arall ar gyfer 1 pwnc mae hynny'n iawn, ond os yn teithio ar gyfer 2 bwnc ac felly yn cael addysg mewn 3 lleoliad mae'n anymarferol*
- *Yn gyffredinol does yr un o'r lleoliadau eraill yn rhy bell er bod ambell i leoliad yn ymylu ar hynny – y rhan fwyaf o bynciau o fewn rhyw hanner awr o daith tacsi – a hynny'n weddol dderbyniol*
- *Dyffryn Nantlle a Bodedern yw'r eithafion o ran pellter*
- *Yr agosaf yw'r dewisiadau eraill i'r ysgol gorau oll, ond mae angen cynnig dewis teg ar draws yr ardal a llwyddir gwneud hynny'n gyffredinol*
- *Mae'r ysgol yn trafod dewisiadau gyda'r disgybl a'i rieni ac yn ceisio annog peidio dilyn mwy nag un cwrs mewn lleoliad allanol*
- *Mae addysg wyneb yn wyneb yn fwy dymunol na dysgu drwy sgrin*
- *Ceir enghreifftiau o ddisgyblion yn symud ysgol er mwyn dilyn cyrsiau heb orfod teithio*

### 4.1.2 Casgliadau Grwpiau Ffocws

Fel y gellid disgwyl mae'r dysgwyr wedi ymateb i'w sefyllfaoedd personol yng nghyswllt dewisiadau a theithio i leoliadau eraill er mwyn bodloni ei hanghenon a'u dyheadau.

**Y dewis sydd ar gael o fewn y rhanbarth i ddysgwyr**

Dywedodd nifer helaeth o aelodau'r grwpiau ffocws bod digon o ddewis o gyrsiau ar gael iddynt er bod rhai sylwadau nad oes digon o ddewis o fewn yr ysgolion. Roedd eraill yn dweud nad oeddynt yn gwneud pwnc "*am nad oeddwn yn gallu ei wneud yn yr ysgol*."

Mae mwyafrif y sylwadau yn ymwneud ag amser teithio, lleoliadau a materion ymarferol ynghlwm â hynny.

**Amser teithio**

- *Mae rhai dysgwyr yn teithio i Ddyffryn Nantlle a Chaernarfon i ddilyn cyrsiau, "Teithio mewn tacsis yn wastraff ar amser"*
- *Roedd yr amser teithio i gyd yn rhesymol ac yn ddim mwy na 30 munud bob ffordd*
- Un gwendid o ganlyniad i'r teithio yw bod amser gweithio yn cael ei lyncu gan deithio mewn tacsi - does dim cyfle i fwrw ati yn syth wedi gwers a dim cyfle i feithrin perthynas gyda'r athro a chael mynediad i gefnogaeth y tu allan i wersi. E.e. cwrs Dylunio a Thechnoleg yn Nyffryn Nantlle - byddai'n dda medru gwario mwy o amser yn yr ysgol i weithio ar agweddau ymarferol a defnyddio'r adnoddau yno, ond rhaid dal tacsi!

**Lleoliad**

- *Roedd y pynciau i gyd ar gael o fewn Arfon a Choleg Llangefni*
- *Digon o ddewis – pob un yn yr ysgol /lleol /Llangefni*
- *Digon o gyrsiau ond rhai dipyn o bellter i ffwrdd*
- *Rhai cyrsiau allanol yn eithaf pell*

- *There were a wide range of choices. “However the distance to travel for a certain subject would be off-putting”*
- *In Tryfan there is a broad range of subjects available here or in school nearby e.g. Music is available in Tryfan although one student dropped out after a few weeks doing the course in Tryfan because he did not speak Welsh*
- *Roedd digon o ddewis i’r pynciau roedd gennyf i ddiddordeb ynddynt. Does gen i ddim profiad o glywed unrhyw un yn cwyno am y broblem yma*

**Materion ymarferol yn ymwneud â theithio i safleoedd eraill**

- *Ffurfio perthynas mewn ysgol arall wedi gallu bod yn anodd- ffurfio perthynas gyda athrawon newydd yn anodd*
- *Un disgybl wedi symud ysgol o Frynrefail er mwyn astudio pynciau yn Tryfan heb deithio*
- *Athrawon newydd mewn canolfannau newydd yn gallu bod yn anodd*
- *Cwynion cyffredinol bod tacsis yn aml iawn yn hwyr yn cyrraedd*
- *Teithio ddim yn boblogaidd ond y mwyafrif yn ei dderbyn fel realiti mewn ardal wledig*
- *Rydw i wedi dilyn y cyrsiau a pynciau roeddwn eisiau eu dilyn nid oedd unrhyw rwystrau i mi ddewis pynciau*
- *Wedi cael dewis fy mhynciau oeddwn eisiau, fyswn wedi dewis 1 pwnc mewn ysgol gwahanol ond oedd mynd i ysgol gwahanol yn ormod*

### 4.1.3 Casgliadau holiaduron

Derbyniwyd 15 ymateb gan rieni disgyblion Blwyddyn 12 yn ysgolion uwchradd Arfon. Nid ymatebodd tua hanner y rhieni i’r cwestiwn *A oes digon o ddewis o gyrsiau ôl-16 ar gael i'ch plentyn o fewn pellter teithio rhesymol*? O’r rhai a ymatebodd, roedd 3 yn cytuno bod dewis digonol 2 yn anghytuno a dau ddim yn siŵr. Roedd 7 ymatebydd yn fodlon i’w plentyn deithio am lai nag awr i fyw nag un safle addysg bob wythnos, 5 yn fodlon gyda theithio am rhwng 1-2 awr ac 1 yn fodlon gyda rhwng 5-6 awr o deithio wythnosol.

Derbyniwyd nifer o ymatebion ansoddol yn ymwneud a theithio i safleoedd eraill yn yr holiadur. Mae tri ymateb yn nodi bod tacsis yn hwyr yn cyrraedd yr ysgolion neu ddim yn “*troi fyny*”. Ceir sylw nad yw’r ysgol yn gwneud dim am y peth a bod y dysgwyr yn colli allan ar waith pwysig. Barn arall yw bod y “*gwasanaeth teithio i wahanol ysgolion yn wael*” er y cydnabyddir bod cydweithio rhwng ysgolion yn dda. Mae ymatebydd arall yn falch bod amrywiaeth o gyrsiau ar gael ond, “*mi fyddai'n haws pe byddai'n dilyn popeth yn yr ysgol gan fod rhai digwyddiadau na ellir ei osgoi yn golygu ei fod wedi colli ambell i sesiwn yn y coleg*.” Ym marn ymatebydd arall dylai’r gwasanaeth bysiau fod, “*am ddim i blant sydd yn mynychu'r ysgol yn blwyddyn 12 a 13*.”

**Crynodeb barn arweinwyr, dysgwyr a rhieni Arfon**

- Mae arweinwyr, dysgwyr a rhai rheini yn teimlo bod digon o ddewis o gyrsiau ar gael o fewn pellter teithio rhesymol
- Mae teithio i leoliad arall ar gyfer un pwnc yn iawn ond mae teithio i ddau leoliad yn anymarferol
- Teithio awr bob ffordd yw'r uchafswm derbyniol, ond mae rhai arweinwyr yn nodi mai uchafswm o awr a hanner yr wythnos sy'n dderbyniol
- Mae trefniadau tacsis ar gyfer teithio i leoliadau eraill ond ceir cwynion gan rieni a dysgwyr eu bod yn hwyr yn cyrraedd neu ddim yn cyrraedd o gwbl
- Mae rhai dysgwyr wedi peidio dewis cwrs penodol oherwydd yr angen i deithio i leoliad arall
- Mae ambell ddisgybl wedi symud ysgol ar gyfer cyrsiau ôl-16 mwyn osgoi teithio a gallu dilyn eu holl bynciau mewn un lleoliad
- Mae rhai disgyblion yn cyrraedd yn ôl i'w cartrefi yn hwyr iawn ar y dyddiau maent yn dilyn cyrsiau consortiwm
- Nododd mwy nag un pennaeth bod y ddarpariaeth tacsis yn gostus iawn i ysgolion
- Mae ffurfio perthynas pan fo angen teithio i ysgol newydd yn gallu bod yn anodd
- Ystyrir bod rhai o'r lleoliadau y mae angen teithio iddynt ar gyfer cyrsiau penodol yn 'bell' neu'n 'eithaf pell'
- Caiff teithio i leoliad arall ei weld fel gwastraff amser a cholli amser dysgu gan benaethiaid a disgyblion

## 4.2 Ysgol y Berwyn

### 4.2.1 Barn arweinwyr

Dywedwyd bod rhai disgyblion yn teithio'n bell i gyrraedd yr ysgol yn y lle cyntaf yn y bore ac o'r herwydd mai teithio ymhellach am hyd at hanner awr bob ffordd sydd yn dderbyniol yn ystod y dydd. Mewn rhai achosion mae angen i ddisgyblion deithio ymhellach i gael yr amrediad o gyrsiau maent eu heisiau gan nad yw'r pynciau /cyrsiau i gyd ar gael yn yr un ganolfan.

### 4.2.2 Casgliadau grwpiau ffocws

Roedd mwyafrif y dysgwyr o'r farn bod digon o ddewis o fewn pellter teithio addas iddynt hwy. Serch hynny, roedd yr angen i deithio i leoliadau eraill yn dylanwadu ar ddewisiadau personol. Nododd y mwyafrif y byddent yn fodlon teithio os oeddynt am wneud cwrs penodol oedd ar gael mewn safle cyfagos yn unig gydag un dysgwr yn

dweud, “*Mi fyswn yn fodlon teithio i’r coleg agosaf (15 milltir i ffwrdd) os buaswn yn gorfod gwneud cwrs penodol sydd ar gael yn fanno yn unig. Ni fyswn yn teithio pellach na awr i ffwrdd.”* Nododd dysgwyr arall y byddai teithio i leoliad arall yn effeithio ar ei ddewis a nododd un arall bod diffyg trafnidiaeth wedi effeithio ar ei ddewis.

**Crynodeb barn penaethiaid a dysgwyr Ysgol y Berwyn**

- Oherwydd bod rhai disgyblion yn teithio’n bell i gyrraedd yr ysgol, teimlir mai hyd at hanner awr o deithio pellach sy’n dderbyniol
- Mae pellter teithio yn gallu dylanwadu ar ddewisiadau dysgwyr
- Mae rhai myfyrwyr yn fodlon teithio i leoliad arall os mai mewn un lleoliad yn unig y cynigir y cwrs
- Mae‘r angen i deithio i leoliadau eraill yn dylanwadu ar ddewisiadau rhai dysgwyr
- Mae mwyafrif y dysgwyr o’r farn bod dewis digonol o gyrsiau ar gael o fewn pellter teithio rhesymol

## 4.3 Grŵp Llandrillo-Menai

### 4.3.1 Barn penaethiaid

Nodwyd bod amser teithio derbyniol yn dibynnu os yw’r dysgwr angen bod mewn un lle a bod 4-6 awr o deithio wythnosol rhwng lleoliadau yn dderbyniol. Yn safleoedd CMD Dolgellau a Phwllheli nid oes teithio pellach ar ôl cyrraedd y safleoedd. Ar gyfer rhai cyrsiau mae’r addysgu wedi ei drefnu mewn ‘blociau’ yn hytrach nag mewn cyfnodau byr sawl gwaith yr wythnos sydd yn lleihau teithio ar gyfer dysgwyr. Yng Ngholeg Menai mae digon o gyrsiau ôl-16 ar gael o fewn pellter teithio rhesymol ond mae’r ddarpariaeth Lefel A gan fwyaf mewn ysgolion.

### 4.3.2 Casgliadau grwpiau ffocws

Yn safleoedd CMD Dolgellau a Phwllheli roedd aelodau’r grwpiau ffocws yn ddigon hapus gyda’u dewisiadau teithio. Yn yr un modd, roedd dysgwyr yng ngrŵp ffocws Coleg Menai yn fodlon, gan gynnwys taith o awr a hanner ar fws o goleg o Gaergybi. Nodwyd mai dilyn y pwnc oedd y flaenoriaeth, nid y pellter teithio a bod yn angen derbyn bod rhaid teithio mewn ardal wledig. Gan fod Coleg Glynllifon yn goleg arbenigol, mae’n denu dysgwyr o ardal eang ac mae’n gallu bod yn ddarpariaeth sydd yn eithaf pell o adref i rai. Mae rhai myfyrwyr o ardaloedd eraill o Gymru yn dewis Glynllifon, er bod colegau amaethyddol eraill yn nes at eu cartrefi.

**Crynodeb barn arweinwyr a dysgwyr Grŵp Llandrillo-Menai**

- Er bod angen teithio i safle'r colegau nid oes teithio pellach ar ôl cyrraedd y safleoedd
- Mae'r myfyrwyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn CMD Dolgellau a Phwllheli yn fodlon gyda'u dewisiadau teithio
- Dilyn cwrs neu bwnc yw'r flaenoriaeth, a rhaid derbyn bod angen teithio mewn ardal wledig

## 4.4 Ysgolion Dwyfor / Meirionnydd

### 4.4.1 Barn arweinwyr

At ei gilydd, mae arweinwyr ysgolion Dwyfor a Meirionnydd o'r farn bod dewis digonol o gyrsiau ôl-16 o fewn pellter teithio rhesymol, er bod rhai yn datgan bod beth yw rhesymol yn "*farn oddrychol*."

Ym Meirionnydd, roedd yr arweinwyr o'r farn bod cynnal ystod ddigonol o gyrsiau mewn ardal wledig yn her, ac o ystyried natur ddaearyddol yr ardal mae'r ddarpariaeth yn foddhaol ar y cyfan. Mae buddsoddiad wedi bod yn safle Dolgellau yn enwedig ynghylch cyrsiau galwedigaethol, ac mae'r arlwy yn dda iawn. Ceir peth pryder bod angen teithio ymhellach o Feirionnydd i Fangor neu Fae Colwyn ar gyfer rhai cyrsiau arbenigol. Nododd un arweinydd bod myfyrwyr yn dewis cyrsiau ôl-16 yng Ngholeg Meirion-Dwyfor Dolgellau, Ysgol Bro Hyddgen ac Ysgol y Berwyn sydd i gyd o fewn ystod teithio o 30-40 munud i ddysgwyr y lleoliad. Sylw arweinydd arall yw bod darpariaeth yn Aberystwyth a Machynlleth ar gael o fewn awr o daith i'r lleoliad, yn ogystal â darpariaeth yn CMD Dolgellau.

Yn Nwyfor, cydnabyddai'r arweinwyr nad yw'r teithio i safle Coleg Meirion-Dwyfor Pwllheli yn anhawster ac mae darpariaeth trên a bysus ar gael i'r dysgwyr. Fodd bynnag, mae rhai opsiynau cyrsiau nad ydynt ar gael ym Mhwllheli yn golygu rhwng awr ac awr a hanner o daith i Ddolgellau, Bangor neu Langefni, sydd yn achosi diwrnodau hirion iawn i ddysgwyr. Nododd un pennaeth nad oes darpariaeth cyrsiau mewn rhai meysydd sydd yn alwedigaethau naturiol i Ben Llŷn ar gael yn lleol. Er enghraifft, er mwyn dilyn cwrs adeiladwaith neu arlwyo, rhaid teithio i Ddolgellau neu Fangor. Mae pellter teithio yn gallu dylanwadu ar ddewisiadau dysgwyr.

### 4.4.2 Casgliadau holiaduron

O'r pump ymateb a dderbyniwyd, mae dau ymateb yn nodi barn nad oedd rhieni Blwyddyn 11 yn fodlon o gwbl i'w plentyn deithio i safle addysg arall bob wythnos, ac mae tri yn nodi eu bod yn fodlon gwneud hynny.

**Crynodeb barn arweinwyr, dysgwyr a rhieni Dwyfor / Meirionnydd**

- Mae arweinwyr ysgolion Dwyfor a Meirionnydd o'r farn bod dewis digonol o gyrsiau ôl-16 o fewn pellter teithio rhesymol yn CMD, Ysgol y Berwyn a lleoliadau all-sirol
- Mae pellter teithio yn gallu dylanwadu ar ddewisiadau dysgwyr
- Mae rhai opsiynau cyrsiau nad ydynt ar gael yn Nwyfor yn arbennig yn golygu rhwng awr ac awr a hanner o daith bob ffordd sydd yn achosi diwrnodau hirion iawn i ddysgwyr
- Mae cynnal ystod digonol o gyrsiau mewn ardal wledig yn her ac o ystyried natur ddaearyddol yr ardal mae’r ddarpariaeth yn foddhaol ar y cyfan
- Mae barn rhieni am yr angen i deithio yn gymysg

# 5 Y Gymraeg

Ar gyfer casglu tystiolaeth ar y defnydd o'r Gymraeg yn y ddarpariaeth ôl-16, holwyd rhan-ddeiliaid ynglŷn â chyngor a ddarperir ar gyfer dilyn pynciau drwy'r Gymraeg; faint o gynnwys y cyrsiau a gynigir sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion a'r colegau; a'r dewisiadau ieithyddol a wneir gan ddysgwyr.

## 5.1 Ysgolion Arfon

### 5.1.1 Barn arweinwr

Ym mwyafrif ysgolion Arfon mae'r cyrsiau ôl-16 ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Darperir cyngor gan athrawon ac aelodau o'r uwch dim rheoli mewn rhai ysgolion, ond dywed ysgolion eraill nad ydynt yn darparu cyngor iaith penodol. Fodd bynnag mae amrywiadau i hyn gydag un arweinydd yn dweud bod "*demand for Welsh Medium Provision is low but some courses are available bilingually e.g. Further Maths, Religious Education and History*". Mewn ysgol arall, cwricwlwm cyfrwng Cymraeg a gynigir a chyfeirir at nifer o adroddiadau Estyn sydd wedi tystio i ansawdd y ddarpariaeth dros y blynyddoedd. Materion penodol eraill a nodwyd gan arweinwyr ynglŷn ag annog dygwyr i ddilyn cyrsiau yn Gymraeg yw:

- *Mae mwy o her i annog rhai disgyblion i ddilyn cyrsiau gwyddonol yn Gymraeg*
- Mewn dwy ysgol nodwyd bod ¾ o ddysgwyr y chweched yn dilyn eu cyrsiau yn Gymraeg
- Mae rhai cyrsiau wedi eu cyfyngu i'r Saesneg oherwydd nad yw cyrff dyfarnu yn cynnig asesiadau Cymraeg e.e. cyrsiau *Pearson* yn y Coleg
- Mae darpariaeth Gymraeg weithiau yn dibynnu ar faes llafur a staffio
- Dywed arweinydd un ysgol mai *cyfrwng Cymraeg ydy'r "default" i fwyafrif y dysgwyr – rhaid iddynt "optio allan" nid "optio mewn"*
- Mewn rhai amgylchiadau, ceir gwersi Cyfrwng Cymraeg a myfyrwyr yn cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Saesneg
- Cyfeiriodd arweinydd at bwysau gan rieni, a'u canfyddiad hanesyddol am ddefnyddioldeb Cymraeg a Saesneg ar gyfer addysg a gwaith. Ceir dadleuon hefyd ynghylch paratoi myfyrwyr ar gyfer cyrsiau addysg uwch yn Lloegr a chystadleuaeth gan ysgolion cyfagos lle ceir dewis iaith a'r cyfle i beidio defnyddio'r Gymraeg o gwbl. Mae'r pwysau gan rieni yn bryder ac ymddengys nad yw ysgolion Cymraeg y de-ddwyrain yn wynebu'r un pwysau gan rieni. Mae rhagdybiaeth yno mai Cymraeg fyddai'r cyfrwng yn ddi wahân

Barn gyffredin am adnoddau Cymraeg ar gyfer cyrsiau ôl-16 gan arweinwyr Arfon yw nad oes digon ohonynt. Gellir crynhoi'r sefyllfa ym marn yr arweinydd a ddywedodd: "*Mae wastad angen mwy o adnoddau dysgu yn y Gymraeg a hynny ar draws y cwricwlwm.*" Yn benodol, cyfeiriwyd at adnoddau a gyhoeddir gan CBAC - cyfeiriodd pedwar arweinydd at y ffaith bod gwerslyfrau ac adnoddau CBAC yn cyrraedd fisoedd ar ôl cyhoeddi'r adnoddau Saesneg. Mewn un ysgol, roedd yr arweinydd addysg wedi

cwyno wrth Gomisiynydd y Gymraeg am y sefyllfa gan fod, "*dysgwyr yn teimlo o dan anfantais ac mae'n anodd dadlau gyda nhw pan fo'r adnodd yn hwyr yn cyrraedd.*"

Ym marn arweinydd arall, mae adnoddau Cymraeg ar gyfer y gwyddorau "*wedi gwella'n aruthrol yn arbennig o ran ansawdd ac mae eu safon yn debyg yn y ddwy iaith*". Roedd o'r farn bod y modiwlau a gynigir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol "*yn rhoi cyfleoedd dilyniant gwell i ddysgwyr.*" Mewn ysgol arall, dywedodd yr arweinydd bod athrawon yn paratoi eu deunyddiau addysgu eu hunain. Dywedwyd hefyd nad oes deunyddiau Cymraeg ar gael ar gyfer rhai cyrsiau sydd yn cael eu harholi gan fyrddau arholi o Loegr e.e. Iechyd a Gofal.

### 5.1.2 Casgliadau grwpiau ffocws

Mewn tair ysgol nododd aelodau'r grwpiau ffocws eu bod yn cael dewis ym mha iaith y byddent yn dewis dilyn eu cyrsiau ôl-16 : "*dewis personol pa iaith oedd mwyaf defnyddiol o fewn y pynciau.*" Mewn dwy ysgol arall dywedwyd mai "*Cymraeg yw'r dewis diofyn,*" neu fod disgwyliad bod pawb yn gwneud y cyrsiau yn Gymraeg. Mewn ysgol arall dywedwyd ei bod yn "*English speaking school. A wide range of people don't speak Welsh.*" Agweddau y cyfeiriwyd atynt gan ddygwyr yw:

- *Roedd yn naturiol i wneud y cyrsiau yn Gymraeg*
- *Nid ydym angen anogaeth yma gan mai'r Gymraeg sy'n gyffredin yma felly mae opsiwn yn cael ei gynnig i'w wneud yn Saesneg*
- *Wedi dewis i wneud y pynciau yn Saesneg - mwy o adnodau adolygu ar gael mewn Saesneg*
- *Advice from teachers to do my course in English due to the amount of sources*
- *Rhai athrawon yn cymryd yn ganiataol mai yn Gymraeg y byddai'r dysgwyr yn dilyn eu pwnc*
- *Rhai pynciau yn trafod yn Gymraeg ond yn gwneud yr ysgrifennu yn Saesneg. Gwyddoniaeth yn tueddu bod yn Saesneg. Mwy o adnoddau Saesneg ar gael*
- *Ni chefais gyngor i'w wneud drwy'r Gymraeg ond rwyf yn gwneud fy nghyrsiau drwy'r Gymraeg*
- *Dydy'r athrawon ddim yn annog naill ffordd na'r llall heblaw am bynciau mathemategol a gwyddonol ble maen nhw'n ffafrio Saesneg*
- *I didn't get much encouragement to do my courses in Welsh but I knew it was available*
- *I would rather do them in English as they may be useful for my future*

Ymysg y rhesymau dros ddewis dilyn cyrsiau yn Gymraeg mae:

- *Deall y gwaith yn well yn Gymraeg*
- *Wedi aros yn Gymraeg drwy gydol yr ysgol, ddim yn mynd i newid ffordd o fyw gyda tasgau*
- *Eisiau mynd ymlaen i astudio drwy'r Gymraeg yn y brifysgol*

- *Pob un yn Gymraeg oherwydd ei fod yn ddilyniad naturiol o TGAU Cymraeg*
- *Drwy'r Gymraeg dwi'n llwyddo orau ond mae diffyg adnoddau Cymraeg*
- *Credaf fod safon fy iaith Gymraeg i yn llawer uwch na Saesneg*

Ymysg y rhesymau a roddwyd dros ddilyn cyrsiau yn Saesneg mae:

- *I believe my English is slightly stronger than Welsh*
- *My Welsh isn't very good*
- *Rhaid gwneud IT yn Saesneg oherwydd y bwrdd arholi OCR*
- *Rwyf yn gwneud fy nghyrsiau drwy gyfrwng y Saesneg gan ei bod yn llawer haws o ran adnoddau'r we ac yn y blaen*
- *I find it easier to remember facts when they're in the medium of English, although I will still regularly use Welsh as it's a beautiful language*
- *Dewisais ddilyn y rhan fwyaf o fy mhynciau yn Saesneg oherwydd mae mwy o adnoddau ar gael ac mae angen gwybod y termau gwyddonol yn Saesneg er mwyn mynd i'r brifysgol. Trafod yn Gymraeg oherwydd dyna sy'n naturiol*

### 5.1.3 Casgliadau holiaduron

Derbyniwyd 15 o ymatebion gan rieni. Mewn ymateb i'r cwestiwn, *A gafodd eich plentyn y dewis a'i annog i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg /neu yn ddwyieithog*? nododd 10 yn gadarnhaol, 1 yn negyddol ac nid oedd 3 yn gwybod. Mewn ymateb i'r cwestiwn *A yw'r cyrsiau ôl-16 y mae eich plentyn wedi ei ddewis ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg?* atebodd 11 yn gadarnhaol 1 yn negyddol, 2 ddim yn siŵr.

**Crynodeb barn arweinwyr, dysgwyr a rhieni Arfon**

- Ym mwyafrif ysgolion Arfon mae'r cyrsiau ôl-16 ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog
- Darperir cyngor am ddewisiadau iaith gan athrawon ac aelodau o'r uwch dîm rheoli mewn rhai ysgolion ond dywed ysgolion eraill nad ydynt yn darparu cyngor iaith penodol
- Mae mwy o her i annog rhai disgyblion i ddilyn cyrsiau gwyddonol yn Gymraeg
- Nid oes asesiadau Cymraeg ar gael ar gyfer rhai cyrsiau gan nad yw Cyrff dyfarnu Lloegr yn cynnig asesiadau Cymraeg
- Mae ansawdd adnoddau cyfrwng Cymraeg wedi gwella ond mae fersiynau Cymraeg adnoddau CBAC bob amser yn cyrraedd yn hwyrach na'r fersiynau Saesneg
- Mewn tair ysgol mae disgyblion yn dewis ym mha iaith y byddant yn dilyn eu cyrsiau ôl-16 . Mewn dwy ysgol arall dywedwyd mai Cymraeg yw'r dewis diofyn neu bod disgwyliad bod pawb yn gwneud y cyrsiau yn Gymraeg, Mewn ysgol arall dywedwyd mai "English speaking school" ydyw
- Mae mwyafrif y rhieni a ymatebodd i'r holiadur yn gwybod bod cyrsiau ôl-16 Cymraeg ar gael a bod eu plant yn derbyn anogaeth i ddilyn cyrsiau yn Gymraeg yn yr ysgolion

## 5.2 Ysgol y Berwyn

### 5.2.1 Barn arweinwyr

Y cyngor a roddir i ddysgwyr yw bod dilyniant ieithyddol ar gael iddynt, ond does dim ateb hawdd. Mae Pennaeth Adran y Gymraeg yn monitro dewisiadau iaith dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 ac ar gyfer dewisiadau ôl-16. Mae'n gamsyniad gan rai rhieni ei bod yn angenrheidiol dilyn cyrsiau yn Saesneg er mwyn gall dilyn cyrsiau prifysgol yn Lloegr. Er hynny, cyfeiriwyd at enghreifftiau o gyn-ddisgyblion a oedd wedi cael trafferth i ddilyn cyrsiau prifysgol yn Saesneg ar ôl gwneud eu haddysg uwchradd yn Gymraeg.

Roedd yr ysgol wedi ymholi pam bod adnoddau dysgu Cymraeg CBAC o hyd yn hwyrach yn cyrraedd na'r fersiynau Saesneg, a deallwyd bod CBAC yn comisiynu cwmnïau eraill i ddarparu'r adnoddau ac nid oes ganddynt rym i reoli amserlenni'r cwmnïau.

### 5.2.2 Casgliadau grwpiau ffocws

Dywedodd aelodau'r grŵp ffocws mai eu dewis hwy oedd pa iaith yr oeddynt am ei defnyddio ar gyfer dilyn eu cyrsiau ôl-16. Derbyniodd rhai dysgwyr gyngor gan athrawon pwnc i ddilyn cyrsiau yn Saesneg e.e. Busnes oherwydd bod "*y termau'n haws*." Roedd athrawon eraill wedi, "*argymell i ni wneud pynciau fel gwyddoniaeth yn y Saesneg*." Roedd tua hanner aelodau'r grŵp ffocws yn astudio cyrsiau yn Gymraeg a'r gweddill yn Saesneg. Nid oedd cwrs BTEC Chwaraeon ar gael i'r dysgwyr yn Gymraeg meddid.

**Crynodeb barn arweinwyr a dysgwyr Ysgol y Berwyn**

- Y cyngor a roddir i ddysgwyr yw bod dilyniant ieithyddol ar gael
- Caiff dewisiadau ieithyddol eu monitro gan Bennaeth Adran y Gymraeg
- Dywed y dysgwyr mai eu dewis hwy oedd pa iaith yr oeddynt am ei defnyddio ar gyfer dilyn eu cyrsiau ôl-16

## 5.3 Grŵp Llandrillo-Menai

### 5.3.1 Barn arweinwyr

Mae capasiti staff CMD yn caniatáu bod 90% o'r cyrsiau ar gael yn ddwyieithog. Ym Mhwllheli a Dolgellau mae'r holl bynciau Lefel A ar gael yn Gymraeg. Mae gan bob dysgwr yr hawl i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir anogaeth gan Grŵp Llandrillo Menai i ddilyn cyrsiau yn Gymraeg. Mae mwy o ddysgwyr yn dewis astudio cyrsiau yn Saesneg yn Nolgellau. Ar gyfer cyrsiau galwedigaethol, mae rhai myfyrwyr yn cwblhau traethodau yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw rhai cyrff dyfarnu yn cynnig asesiadau yn Gymraeg. Yng Ngholeg Menai, mae cyrsiau Lefel A ar gael drwy gyfrwng y Saesneg er mwyn peidio tanseilio darpariaeth cyfrwng Cymraeg Ysgol Tryfan.

Mae llawer o'r ddarpariaeth addysg ar gael yn ddwyieithog. Mae Swyddog Cangen Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio o fewn Grŵp Llandrillo-Menai ac yn trosglwyddo gwybodaeth i'r Coleg Cymraeg ynglŷn â beth sy'n digwydd yn y Grŵp. Mae'r swyddog yn creu digwyddiadau Cymraeg fewn y Grŵp ac yn normaleiddio defnydd iaith. Yn CMD a Choleg Menai gweithredir cynllun Seren Iaith a ddatblygwyd gan Sgiliaith, sef holiadur a ddosberthir i fyfyrwyr ar ddechrau a diwedd blwyddyn, sesiynau ymwybyddiaeth iaith a hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

### 5.3.2 Casgliadau grwpiau ffocws

Yn safle Dolgellau, mae dysgwyr yn gwybod fod cyrsiau ar gael yn ddwyieithog o fewn y Coleg, ond nid oedd unrhyw un o aelodau'r grŵp ffocws yn cofio cael eu hannog i ddilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg: dewis yr unigolyn ydoedd. Roedd mwyafrif y dysgwyr yn y grŵp ffocws wedi dewis dilyn eu cyrsiau ôl-16 yn Saesneg oherwydd:

- *Bod y derminoleg yn fwy cyfarwydd ac yn haws ei dilyn*
- *Gweddill y dosbarth wedi dewis Saesneg, dim eisiau bod yn wahanol*
- *Awydd ac angen i gryfhau sgiliau Saesneg*
- *Y tiwtoriaid ar y cwrs yn siaradwyr Saesneg*
- *Dwi'n dod o gefndir Saesneg ac yn llawer mwy rhugl yn Saesneg*

Dewisodd un aelod ddilyn ei holl bynciau Lefel A yn Gymraeg oherwydd:

- ei bod wedi dilyn pob pwnc cyn-16 yn Gymraeg
- yn dod o deulu Cymraeg iaith gyntaf
- yn haws cyfathrebu a dysgu yn Gymraeg

Yn safle Pwllheli, roedd aelodau'r grŵp ffocws hefyd yn ymwybodol fod y cyrsiau ar gael yn ddwyieithog a bod dewis gan yr unigolyn. Nid oedd anogaeth i ddilyn cwrs yn Gymraeg fel y cyfryw, ond gwyddent fod y ddarpariaeth ddwyieithog ar gael "yn naturiol." Y rhesymau a roddwyd dros ddilyn cyrsiau yn Saesneg oedd:

- Bod y termau yn fwy cyfarwydd iddynt a'r adnoddau dysgu ar gael yn Saesneg
- Saesneg fel paratoad ar gyfer dilyn cyrsiau AU drwy'r Saesneg

Roedd aelodau eraill o'r grŵp yn parhau i ddilyn eu cyrsiau ôl-16 yn Gymraeg:

- Fel dilyniant i'w cyrsiau TGAU ac o ran egwyddor dysgu yn eu hiaith gyntaf.
- *Eisiau dysgu yn ein iaith ein hunain*
- Wedi dewis Cymraeg gan mai dyna iaith addysg er mai Saesneg oedd iaith y teulu a'r aelwyd
- Angen sgiliau Cymraeg ym maes gofal plant ac iechyd a gofal

Yng Nglynllifon, roedd un aelod o'r grŵp ffocws yn dweud ei fod yn "ddewis naturiol" i ddilyn y cwrs ôl-16 yn Gymraeg ac roedd eraill yn dweud eu bod wedi "cael cynnig " dilyn y cyrsiau yn Gymraeg. Y rheswm a roddwyd dros ddilyn cyrsiau yn Saesneg oedd:

- *Nes i ddewis siarad Cymraeg yn y dosbarth ac i'r tiwtoriaid ond rwy'n gwneud y gwaith yn Saesneg gan ei fod yn haws. Ac yn y brifysgol rhaid astudio yn Saesneg*

Y rhesymau a roddwyd gan ddysgwyr dros ddilyn cyrsiau yn Gymraeg oedd:

- mae'r gwaith a'r geiriau'n haws yn Gymraeg
- mwy cyfforddus yn siarad Cymraeg
- Cymraeg iaith gyntaf
- dydw i ddim yn siarad Saesneg yn rhugl, Cymraeg adref

Yng Ngholeg Menai, yn gyffredinol, ni chafwyd anogaeth benodol i fyfyrwyr ddilyn cyrsiau drwy gyfwng y Gymraeg. Mae diffyg adnoddau Cymraeg hefyd yn ffactor wrth benderfynu ar gyfwng dysgu pynciau Lefel A. Mae'r myfyrwyr yn ymwybodol bod nifer helaeth o gyrsiau'r Coleg ar gael yn ddwyieithog. Nodwyd bod tuedd hanesyddol i ragdybio mai Saesneg yw cyfrwng priodol cyrsiau Lefel A. Byddai un dysgwr yn grŵp ffocws wedi dymuno dilyn ei phynciau Lefel A yn Gymraeg, ond nid oedd staff Cymraeg ar gael i hwyluso hynny.

**Crynodeb barn arweinwyr a dysgwyr Grŵp Llandrillo-Menai**

- Mae mwyafrif llethol y cyrsiau ôl-16 ar gael yn ddwyieithog yng Ngholeg Meirion Dwyfor
- Nid oes darpariaeth Lefel A cyfrwng Cymraeg yng Ngholeg Menai rhag tanseilio darpariaeth Gymraeg ysgolion lleol
- Nid yw rhai Cyrff Dyfarnu yn cynnig asesiadau yn Gymraeg
- Cyflogir staff i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn academaidd a chymdeithasol
- Mae myfyrwyr yn ymwybodol o gyfleoedd i astudio drwy'r Gymraeg ond nid yw llawr yn teimlo eu bod wedi derbyn anogaeth i wneud hynny
- Dewis personol y myfyriwr sydd yn penderfynu ar gyfrwng iaith astudio i raddau helaeth iawn
- Mae diffyg adnoddau Cymraeg yn ffactor wrth benderfynu ar gyfrwng iaith astudio

## 5.4 Ysgolion Dwyfor / Meirionnydd

### 5.4.1 Barn arweinwyr

Mae dilyniant ieithyddol ôl-16 yn destun sy'n peri pryder i amryw o arweinwyr addysg cyn-16 Meirionydd a Dwyfor.

Ym Meirionnydd, dywedodd y pedwar arweinydd y rhoddir anogaeth o fewn yr ysgolion i ddilyn cyrsiau yn Gymraeg er y cydnabyddir bod y cyngor yn amrywio o ysgol i ysgol. Materion penodol y mynegwyd barn amdanynt parthed dewisiadau ieithyddol ôl-16 yw:

- *Yn ymarferol dewis personol unigolyn yw'r cyfrwng pan maent yn dilyn cyrsiau ôl-16*
- *Mae'r ysgol o'r farn nad ydy CMD na Gyrfa Cymru'n atgyfnerthu'r negeseuon cadarnhaol mae'r ysgol yn ei rannu am sicrhau dilyniant ieithyddol mewn addysg (er eu bod yn gefnogol i'r Gymraeg)*
- *Mae consyrn nad yw dilyniant ieithyddol yn cael blaenoriaeth o fewn diwylliant CMD ac nad yw'r agwedd hon yn cael ei hystyried mewn modd strategol a chorfforaethol. Awgrymir bod angen trafodaethau mwy ffurfiol rhwng yr ysgolion a'r coleg ynglŷn â hyn*
- *Gall diffyg gwerslyfrau a nodiadau dysgu Cymraeg fod yn rhwystr, ynghyd â thechnegau addysgu dwyieithog gwan, danseilio parodrwydd dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae angen sicrhau bod tiwtoriaid yn hwyluso dewisiadau iaith mewn dull anogol a chefnogol*
- *Canfyddiadau hanesyddol am briodoldeb ieithoedd gwahanol ar gyfer gwahanol bynciau a lefelau o addysg yw'r her fwyaf. Mae canfyddiadau hanesyddol tebyg yn parhau ynghylch natur yr addysg academaidd neu alwedigaethol a geir mewn 6ed dosbarth neu goleg addysg bellach*

Yn Nwyfor, tebyg yw barn a phryderon arweinwyr addysg am gyngor a dilyniant ieithyddol ôl-16. Mae pryderon bod dilyniant ieithyddol yn llithro wrth symud o'r ysgol i'r coleg er bod yr ysgolion yn annog bod y disgyblion yn parhau gyda'u hastudiaethau ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae un ysgol wedi gweithredu technegau theori NUDGE sy'n cymryd yn ganiataol bod dysgwyr am ddilyn eu cyrsiau yn Gymraeg. O ganlyniad, mae'r niferoedd sy'n dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu i 80% lle bu yn y 60au canol. Materion penodol y mynegwyd barn amdanynt parthed dewisiadau ieithyddol ôl-16 yw:

- *Rhagdybiaeth hanesyddol mai Saesneg yw priod iaith rhai pynciau a sectorau*
- *Diwylliant y sefydliad ôl-16 heb lawn gynhesu i'r Gymraeg*
- Dylanwad rhieni, heb iddyn nhw lawn sylweddoli manteision sicrhau dilyniant mewn addysg Gymraeg.
- Mae angen adnoddau marchnata cyson ledled y sir i hyrwyddo manteision mewn addysg Gymraeg gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o anghenion ieithyddol cyflogwyr. Dylid ystyried cydweithio'n nes gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- *Nid oes gan yr ysgol lawer o reolaeth dros ddewisiadau iaith ar ôl i ddygwyr gwblhau eu cyrsiau TGAU*
- *Mae pwysau cadarnhaol i ddilyn cyrsiau Cymraeg yn gweithio. Os rhoddir cynnig dewis iaith hollol agored bydd llawer yn dewis Saesneg*

### 5.4.2 Casgliadau holiaduron

Derbyniwyd pump ymateb gan rieni Blwyddyn 11 ysgolion Meirionnydd a Dwyfor i'r holiadur a ddosbarthwyd. Mewn ymateb i'r cwestiwn *A yw'r cwrs ôl-16 y mae eich plentyn yn ystyried ei astudio ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg*? cafwyd ymateb cadarnhaol gan bedwar ymatebydd. Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn siŵr a oedd y cwrs ar gael yn Gymraeg.

**Crynodeb barn arweinwyr, dysgwyr a rhieni Dwyfor / Meirionydd**

- Mae dilyniant ieithyddol ôl-16 yn achosi pryder i amryw o arweinwyr addysg cyn 16 Meirionydd a Dwyfor
- Rhoddir anogaeth o fewn yr ysgolion i ddilyn cyrsiau yn Gymraeg er y cydnabyddir bod y cyngor yn amrywio o ysgol i ysgol
- Er bod Coleg Meirion-Dwyfor a Gyrfa Cymru yn gefnogol i'r Gymraeg mae rhai ysgolion o'r farn nad ydynt yn atgyfnerthu negeseuon cadarnhaol ysgolion am ddilyniant ieithyddol mewn addysg. Mae pryderon bod dilyniant ieithyddol yn llithro wrth symud o'r ysgol i'r coleg
- Mae canfyddiadau hanesyddol yn parhau am natur yr addysg academaidd neu alwedigaethol a geir mewn 6ed dosbarth neu goleg addysg bellach
- Nid yw rhieni bob amser yn sylweddoli beth yw manteision dilyniant mewn addysg Gymraeg
- Mae angen adnoddau marchnata rheolaidd ar draws y sir i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg

# 6 Effeithiolrwydd y ddarpariaeth bresennol

Yn yr adran hon, adroddir ar farn arweinwyr, dysgwyr a rhieni ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth ôl-16 gyfredol yng Ngwynedd. Nodir yn ogystal, unrhyw sylwadau am ddyfodol y ddarpariaeth o fewn y sir.

## 6.1 Ysgolion Arfon

### 6.1.1 Barn arweinwyr

Roedd pob un o arweinwyr  ysgolion Arfon o'r farn bod y drefn bresennol yn effeithiol o ran yr ystod o bynciau a chyrsiau a gynigir i'r holl ddysgwyr, "*Ceir dewis eang o bynciau, yn bynciau craidd a phynciau ychwanegol. Mae'r safon yn dda, mae'r gofal yn dda ac mae'r canlyniadau yn dda*." Nododd dau arweinydd  bod "gwarantu ansawdd cyrsiau oddi ar y safle" yn allweddol gan fynegi bod safon yn amrywio gyda rhai pynciau. Materion eraill a godwyd o ran effeithiolrwydd y ddarpariaeth bresennol oedd:

- Bod cefnogaeth a chyfleoedd allgyrsiol yn fwy effeithiol na mewn coleg addysg bellach
- Bod naws gymunedol ddim yn bosib mewn coleg fel ag y mae mewn ysgol
- Bod cadw dysgwyr yn eu cymuned yn golygu eu bod "*yn gallu parhau gyda'u cyfranogiad fel arweinwyr yn eu cymunedau – mae hyn yn allweddol*"
- Bod cadw chweched dosbarth o fewn ysol yn ffordd i ddenu staff "*oherwydd bod llawer o athrawon yn hoffi'r cyfle i addysgu'r 6ed*"

O ran effeithlondeb, y prif wendid oedd cost cludiant, gyda phedwar pennaeth yn nodi hynny yn eu hymatebion. Roedd un pennaeth yn teimlo bod trefniadau teithio'r ysgol yn effeithiol ac effeithlon gan fod yr ysgol yn rhedeg dau fws mini yn lle talu cwmnïau tacsi i gludo disgyblion i ganolfannau eraill i fynychu darpariaeth consortiwm. Roedd yr arweinwyr yn cydnabod bod cost i gynnal pynciau gyda dosbarthiadau bychain ond yn teimlo bod angen cyfrifo cost cludiant yn erbyn cost cynnal dosbarth bach. Mynegodd un pennaeth y farn bod chweched dosbarth gyda llai na 25 o ddysgwyr "*ddim yn gwneud synnwyr yn gyllidol*". Materion eraill a godwyd wrth drafod effeithlondeb oedd:

- Bod y ffi'r rhwydwaith (£750) yn werth yr arian
- "*Byddai angen i unrhyw drefn newydd fod yn well na'r ddarpariaeth gyfredol o ran (a) addysg cyfrwng Cymraeg, (b) safon yr addysg yn gyffredinol a (c) safon y gofal a'r gefnogaeth i ddysgwyr*"

### 6.1.2 Casgliadau grwpiau ffocws

Codwyd themâu gwahanol wrth drafod datblygu'r ddarpariaeth ôl-16 yng Ngwynedd i'r dyfodol yn y grwpiau ffocws a gynhelir gyda dysgwyr Blwyddyn 12 a 13. Mewn dwy ysgol cafwyd nifer o sylwadau o blaid cadw darpariaeth chweched dosbarth yn yr ysgol megis:

- *Y chweched dosbarth yn gweithio'n bril*
- *Hoffi'r system fel mae'n bodoli*
- *Dosbarthiadau bach yn fwy o help*
- *Niferoedd llai chweched yn haws cynllunio amserlen i siwtio pawb i wneud eu pynciau delfrydol*
- *Ysgol yn eich gwarchod ac yn gwneud yn siŵr bod eich gwaith yn cyrraedd y safon, Coleg yn hapus efo 'pass'*
- *Ysgol yn cynnig cyfleoedd dydi coleg ddim fel eisteddfod, rhan o bwyllgor, bod yn brif ddisgybl*
- *Cadw chweched yn ysgolion, os byddent yn cau, bydd yn golled enfawr i'r disgyblion sydd eisiau aros yn yr ysgol*
- *Very important for keeping 6th form as an option in schools, good way of easing people into out of school education without giving too much freedom and not enough support*.

Themâu eraill o ran cynllunio darpariaeth ôl-16 oedd:

- Cyfathrebu gwell rhwng ysgolion
- Mwy o wybodaeth am gynnwys cyrsiau
- Gwneud y BAC yn ddewisol yn hytrach na gorfodol
- Creu mwy o adnoddau Cymraeg ar gyfer rhai pynciau
- Gwella'r cyngor gyrfaol
- Mwy o bwyslais ar gymorth ar gyfer beth i ddewis er mwyn dilyn cwrs priodol yn y brifysgol a gyrfaoedd.

**Crynodeb barn arweinwyr a dysgwyr Arfon**

- Mae arweinwyr yn teimlo bod drefn bresennol yn effeithiol o ran yr ystod o bynciau a chyrsiau a gynigir i ddysgwyr
- Mae'r safon yn dda, mae'r gofal yn dda ac mae'r canlyniadau yn dda
- Mae costau cludiant yn gwneud y drefn bresennol yn aneffeithlon
- Mae modd i drefniadau cludiant fod yn effeithlon trwy cael dau bws mini yr ysgol i gludo'r plant yn lle defnyddio tacsi.
- Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi darpariaeth ôl-16 o fewn yr ysgol
- Ymhlith manteision eraill, mae dysgwyr yn teimlo bod dosbarthiadau llai yn fanteisiol ac maent yn teimlo bod ysgolion "*yn eich gwarchod ac yn gwneud yn siŵr bod eich gwaith yn cyrraedd y safon*," tra bod, "*Coleg yn hapus efo 'pass'*"

## 6.2 Ysgol y Berwyn

### 6.2.1 Barn arweinwyr

Barn arweinwyr Ysgol y Berwyn oedd er mwyn darparu dewis eang, mae rhai pynciau yn mynd i fod yn boblog ac eraill yn ddewis i nifer fach o ddysgwyr. Cydnabyddent bod "*cwestiynau gwerth am arian yn codi lle bo llai o ddysgwyr. Mae'r ddarpariaeth yn gallu bod yn llai effeithiol gyda grwpiau bach sydd hefyd yn anorfod pan mae nifer fach o ddysgwyr mewn blwyddyn. Pan fo niferoedd yn llai, gellir cyfuno gwersi blynyddoedd 12 a 13 ar gyfer elfennau ymarferol rhai pynciau. Mae hyn yn gost effeithiol ond mae manylebau gwahanol Uwch Gyfrannol ac Uwch yn cyfyngu ar y gallu i wneud hyn.*"

### 6.2.2 Casgliadau grwpiau ffocws

Ni fynegwyd barn am effeithiolrwydd y ddarpariaeth bresennol. O ran datblygu'r ddarpariaeth ôl-16 yng Ngwynedd yn y dyfodol, barn y dysgwyr Blwyddyn 12 a 13 a gyfrannodd i'r grŵp ffocws oedd bod eisiau:

- cynnig mwy o ddewis o bynciau Lefel A a chyrsiau eraill mewn ysgolion
- ei gwneud yn fwy amlwg i ddysgwyr beth yn union y gallent fanteisio arni o ran swyddi neu darpariaeth ôl-18
- rhoi rhagor o arian i ysgolion ar gyfer prynu nwyddau

**Crynodeb barn arweinwyr a dysgwyr Ysgol y Berwyn**

- Er mwyn darparu dewis eang, mae rhai pynciau yn mynd i fod boblog ac eraill yn ddewis i nifer fach o ddysgwyr
- Mae cwestiynau gwerth am arian yn codi lle bo llai o ddysgwyr
- Teimlai dysgwyr bod angen cynnig mwy o ddewis o bynciau Lefel A a chyrsiau eraill mewn ysgolion
- Mae angen ei gwneud yn fwy amlwg i ddysgwyr beth yn union y gallent fanteisio arni o ran swyddi neu darpariaeth ôl-18
- Mae dysgwyr yn teimlo bod angen rhoi rhagor o arian i ysgolion ar gyfer prynu nwyddau

## 6.3 Grŵp Llandrillo-Menai

### 6.3.1 Barn arweinwyr

Yn ôl arweinwyr Grŵp Llandrillo-Menai, dim ond trwy gael un system o ddarpariaeth ôl-16 y mae modd bod yn gost effeithiol. Roeddent o'r farn "*gyda threfn drydyddol, ceir gwell canlyniadau TGAU yn yr ysgol a gwell canlyniadau Lefel A yn y colegau. Nid yw'r drefn bresennol yn effeithiol gan fod rhaid cymorthdalu'r ddarpariaeth ôl-16 a gynigir o fewn ysgolion*".

Wrth gynllunio at y dyfodol, safbwynt arweinwyr Grŵp Llandrillo-Menai yw y dylid:

- cyd-gynllunio'r cwricwlwm 11 -19 er mwyn trosglwyddo'n well o TGAU i lefel A a chyrsiau galwedigaethol
- cael gwared ar ffiniau sirol o ran y ddarpariaeth ôl-16
- sicrhau cyd-weithio mewn partneriaeth i rannu arferion llwyddiannus ac i gynnig dewisiadau ieithyddol

### 6.3.2 Casgliadau grwpiau ffocws

Ni fynegwyd barn am effeithiolrwydd y ddarpariaeth bresennol. O ran datblygu'r ddarpariaeth ôl-16 yn y dyfodol, roedd y farn a fynegwyd gan ddysgwyr mewn tri o'r pedwar safle yn dra gwahanol i'w gilydd.

Barn dysgwyr safle Dolgellau oedd:

- *Byddai'n dda cael pas bws rhatach - ar hyn o bryd, cost y pas yw £300 y flwyddyn*
- *Dylid ystyried ymestyn y pas bws tu allan i Wynedd i ddysgwyr ym Mhowys*
- *Dylid peidio gwneud y BAC yn orfodol*

Barn dysgwyr safle Pwllheli oedd:

- *Mae angen mwy o adnoddau dysgu cyfrwng Gymraeg a chefnogaeth ymarferol i ddilyn cyrsiau yn y Gymraeg*
- Er y cynnig o arlwy dwyieithog cyfartal, ymddengys nad yw'n ddewis teg ar hyn o bryd o safbwynt y dysgwyr

Barn dysgwyr safle Glynllifon oedd bod angen:

